Mae'r dull adolygu hwn yn cydymffurfio â'r ESG

# Adolygiad Gwella Ansawdd

## Prifysgol Wrecsam

### Adroddiad yr Adolygiad

Chwefror 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

# Cynnwys

**Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd ........ 1**

Yr adolygiad hwn ........ 1

**Yr adroddiad hwn ........ 1**

**1. Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad ........ 3**

Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol ........ 3

Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau ........ 3

Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol ........ 4

Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad ........ 4

Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn yr hunan-ddadansoddiad ........ 5

Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol ... 5

**2. Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad ........ 6**

Y canmoliaethau ........ 6

Yr argymhellion ........ 6

Meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus ........ 6

Pryderon ........ 7

**3. Datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant ........ 8**

Sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr.. 8

Sylwadau ar y camau a gymerir i sicrhau bod y blaenoriaethau gwelliant yn cael eu gweithredu'n effeithiol ........ 9

Sylwadau am y broses o werthuso canlyniadau'r blaenoriaethau gwelliant, ac o adrodd amdanynt, a'r ffordd y mae hyn yn hysbysu datblygiadau a gweithgareddau gwella yn y dyfodol ........ 9

**4. Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr ........ 11**

Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ....11

Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr ........ 11

Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr ........ 12

Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu ... 12

Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu ... 14

Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr ... 14

Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt ... 15

Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu ... 17

Crynodeb o'r trefniadau i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ... 17

**5. Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd ... 18**

Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth ... 18

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol ... 18

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol ... 19

Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi ... 20

Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd ... 20

**6. Darpariaeth gydweithredol ... 21**

Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid ... 21

Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ... 21

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol ... 22

Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ... 23

**7. Pryderon ... 24**

Y casgliadau cyffredinol ... 32

# Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

## Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad yr Adolygiad GA a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Wrecsam ('y Brifysgol'). Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 11 a 14 Chwefror 2025 a chafodd ei weithredu gan dîm o bedwar adolygwr:

- Ms Stella Diamantidi (adolygwr)
- Dr Osian Rees (adolygwr)
- Dr Harry Williams (adolygwr)
- Dr Nina di Cara (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr. Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (yr Hunan-ddadansoddiad), gwybodaeth gyd-destunol am natur ei ddarpariaeth a phoblogaeth ei fyfyrwyr, ac ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

Yn yr adolygiad hwn, mae tîm yr Adolygiad GA yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl i'r beirniadaethau gael eu mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparwr 'yn bodloni'r gofynion' hyn, 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Mae rhagor o fanylion am y categorïau yma yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA.

Hefyd, mae'r Adolygiad GA yn rhoi datganiad am y dull strategol y mae'r darparwr yn ei ddefnyddio i wella profiad dysgu ei fyfyrwyr.

# Yr adroddiad hwn

Gallwch weld y beirniadaethau a roddwyd yn yr adolygiad hwn ar dudalen 6, ynghyd ag unrhyw ganmoliaethau, meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus ac argymhellion a nodwyd gan y tîm adolygu. Yn dilyn hyn mae canfyddiadau manwl yr adolygiad.

Mae'r adroddiadau hyn yn darparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws y darparwyr yng Nghymru.

Yn 2022, codwyd nifer o bryderon mewn perthynas â Phrifysgol Wrecsam (sef Prifysgol Glyndŵr Wrecsam bryd hynny) ac, o ganlyniad, cychwynnwyd ymchwiliad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (sef Medr, Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru, erbyn hyn)

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad GA: https://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: https://www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

a phasiwyd y mater i QAA i wneud Ymchwiliad Cam 2 o dan y Broses Ymchwilio Pryderon (Cymru). Cytunwyd rhwng y Brifysgol, Medr a QAA y byddai'r tîm adolygu sy'n gwneud yr Adolygiad GA o'r Brifysgol yn 2015 yn ystyried, yn rhan o'r broses Adolygiad GA, a yw'r cynllun gweithredu (cynllun gweithredu amlinellol ar gyfer adolygu pryderon, sydd ar gael yn y Saesneg yn unig) a luniwyd mewn ymateb i ganfyddiadau'r Ymchwiliad i Bryderon a wnaed ym mis Ionawr 2023[3] wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

[3] www.medr.cymru/wp-content/uploads/2024/10/Adroddiad-i-CCAUC-am-Ymchwiliad-i-Bryderon-Cymru-Prifysgol-Glyndwr-Wrecsam-Ionawr-2023.pdf

# 1. Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

## Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1. Mae hanes Prifysgol Wrecsam ('y Brifysgol') yn dyddio'n ôl i'r 19eg ganrif. Yn fwy diweddar, sefydlwyd y Brifysgol o dan yr enw Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn 2008, cyn iddi dderbyn ei theitl cyfredol gan y Cyfrin Gyngor yn 2023. Uchelgais y Brifysgol yw cefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol ei rhanbarth cyfagos a thu hwnt, gyda ffocws ar gyflogadwyedd ei graddedigion. Mae ei phrif gampws yn Wrecsam ei hun, ond mae ganddi allbyst arbenigol yn Llanelwy, yn Llaneurgain (Sir y Fflint) ac ym Mrychdyn lle darperir cyrsiau mewn meysydd astudio sy'n cynnwys nyrsio a gofal iechyd, nyrsio milfeddygol, technoleg ac ymchwil defnyddiau.

2. Yn ogystal â'i darpariaeth israddedig ar y campws, mae gan y Brifysgol bartneriaeth academaidd gyda Phrifysgol Caer ar gyfer darpariaeth ymchwil ôl-raddedig. Mae hefyd yn cydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaid academaidd yn y DU a thramor.

3. Man cychwyn fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol y Brifysgol yw gyda'r Bwrdd Llywodraethwyr sy'n derbyn cefnogaeth amrywiaeth o is-bwyllgorau sy'n gweithredu drwy gynllun sefydledig o ddirprwyo cyfrifoldebau. Ychwanegwyd at y rhain yn ddiweddar gyda'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd (Pwyllgor ASA) sy'n gweithio mewn aliniad â'r Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau er mwyn cryfhau'r oruchwyliaeth ar ansawdd academaidd.

4. Yr Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am y gwaith rheoli, gyda chefnogaeth Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor a'r uwch dîm rheoli. Ychwanegwyd at yr uwch dîm rheoli yn y blynyddoedd diwethaf gyda phenodiadau penodol Pro Is-Ganghellor (Ymchwil) a Phro Is-Ganghellor (Ymgysylltiad Allanol a Phartneriaethau), ynghyd â Phro Is-Ganghellor Cysylltiol (Datblygiad Academaidd). Yn weithredol, mae dwy gyfadran sydd â'r un trefniadau arwain a rheoli.

## Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

5. Mae strategaeth gyffredinol y Brifysgol yn rhoi'r pwyslais haeddiannol ar ehangu mynediad a chyfleoedd dysgu gydol oes, a thanategir hyn gan strategaethau penodol ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu. Mae'r dull strategol hwn wedi ei adlewyrchu yn lledaeniad y ddarpariaeth, ochr yn ochr â'r twf yn y nifer o fyfyrwyr sydd wedi ei gynllunio'n strategol, yn cynnwys ar lwybrau astudio rhan amser, ar-lein ac mewn sefydliadau partneriaid.

6. Ym mlwyddyn academaidd 2023-24, roedd gan y Brifysgol gyfanswm o 14,382 o fyfyrwyr cofrestredig. Roedd 2,499 o fyfyrwyr rhyngwladol yn astudio ar y campws. O'r myfyrwyr cofrestredig o'r DU, roedd 2,436 yn astudio ar lefel israddedig a 637 ar lefel ôl-raddedig a addysgir, ac roedd ganddi 51 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. O'r cyfanswm o fyfyrwyr cofrestredig, roedd 2,684 yn astudio ar-lein, 2,966 ar gyrsiau addysg drawswladol, 1,717 mewn sefydliadau partner yn y DU, ac roedd 1,392 o fyfyrwyr o'r DU yn astudio ar gyrsiau byr.

7. Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-19 a 2023-24, mae cyfanswm y myfyrwyr wedi cynyddu o 108%, yn bennaf drwy ehangu trefniadau partneriaeth a dysgu ar-lein - cynyddodd y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio ar-lein o 7,154%, y nifer o fyfyrwyr addysg drawswladol o 239% a'r nifer o fyfyrwyr mewn sefydliadau partner yn y DU o 459%. Hefyd, cafwyd cynnydd sylweddol o 2,708% rhwng 2018-19 a 2023-24 yn y nifer o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio ar y campws. Dros yr un cyfnod, mae'r nifer o fyfyrwyr israddedig o'r DU wedi gostwng o 17%.

8. Dros y blynyddoedd nesaf, drwy ei phroses gyfredol o adolygu'r portffolio, mae'r Brifysgol yn gobeithio gwyrdroi'r gostyngiad a gafwyd yn y nifer o fyfyrwyr israddedig o'r DU. Mae'r twf sydd wedi ei gynllunio yn y nifer o fyfyrwyr israddedig llawn amser o'r DU wedi ei fwriadu hefyd i gydbwyso'r gostyngiad (ar draws y DU gyfan) yn y nifer o fyfyrwyr rhyngwladol.

9. Cafodd y cyfraddau cadw a chynnydd eu heffeithio gan y pandemig COVID, ac mae'r adferiad wedi bod yn raddol. Mae'r Brifysgol wedi gweld gwelliant mewn cadwraeth, o 79.1% ar ei isaf yng nghanol y pandemig yn 2021-2022, i 86.3% yn 2023-24, sy'n agos at gyrraedd y lefel cyn y pandemig.

10. Mae patrwm tebyg i'w weld yn y cynnydd a'r parhad ac mae tystiolaeth o ddirywiadau yn ystod y blynyddoedd oedd wedi eu heffeithio gan y pandemig COVID, a chyfradd adfer araf wedi hynny. Yn 2023-24, cyfradd y cynnydd oedd 80.6% a'r gyfradd barhad oedd 74.2%.

## Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

11. Mae'r Brifysgol yn alinio ei strategaeth a'i darpariaeth ag ystod o flaenoriaethau cenedlaethol (gwelwch hefyd baragraffau 37 i 38), ac mae wedi ei hysbysu ganddynt hefyd. Mae'r gyntaf o'r rhain yn ymgorffori systemau a phrosesau i baratoi'r myfyrwyr ar gyfer economi deinamig a newidiol, ac i'w galluogi i gael y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol. Mae'r systemau a'r prosesau hyn yn gweithredu o fewn amgylchedd ehangach sydd â'r nod o gynnal ac ailddyblu ymdrechion gan y Brifysgol i barhau ei chenhadaeth o ehangu cyfranogaeth mewn addysg ar y lefel gyfredol hon, ac i roi pwyslais arbennig ar brofiad dysgu a lles y myfyrwyr. Mae fersiynau wedi eu diweddaru o Strategaeth Cyflogadwyedd a Fframwaith Sgiliau'r Brifysgol, a'i Harolwg Deilliannau Graddedigion 2024, yn dangos bod y Brifysgol yn drydydd yng Nghymru am y gyfran o raddedigion mewn swyddi cyflogedig, ac mae'n aelod o gyrff perthnasol megis Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Llwyddodd y Brifysgol i ennill bid yn ddiweddar am £8.35 miliwn drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o dan Fargen Twf y Gogledd i godi adeilad newydd ar gyfer peirianneg ar ei champws ac mae hi'n gobeithio y bydd hyn yn cryfhau ei chyfraniad i fyd ymchwil.

12. Yr ail o'r blaenoriaethau hyn yw cynnal a gwella ansawdd y system addysg drydyddol, parhau a dwysáu ei gwaith o ehangu cyfranogaeth, a chymryd camau i sicrhau system fwy cyfartal a rhagorol i bawb, gan adeiladu ar y gydnabyddiaeth o ansawdd yr addysgu a gydnabyddir yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Yn y cyd-destun hwn, un o uchelgeisiau'r Brifysgol yw cadw ei safle fel y fwyaf cynhwysol yn gymdeithasol o'r holl brifysgolion yng Nghymru a Lloegr ('Good University Guide 2025' y Times a'r Sunday Times).

13. Y drydedd flaenoriaeth yw rhoi'r dysgwr 'wrth graidd y system', drwy sefydlu strategaethau ar gyfer cefnogi iechyd a lles y myfyrwyr ac ehangu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r fenter 'Cymraeg 2050'.

## Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

14. Dywedodd staff y Brifysgol wrth y tîm adolygu ei bod yn ymdrin â'r adolygiad hwn fel proses o wella, gan seilio ei baratoad ar drefniadau cyfredol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd yn barhaus.

15. Cychwynnodd y gwaith paratoi ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yn hydref 2023 gyda sefydlu Grŵp Llywio Adolygiad GA, sy'n cyfarfod bob mis o dan arweinyddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor, gyda myfyrwyr a staff ymysg ei aelodau. I sicrhau bod y trefniadau

ar waith o'r cychwyn un, roedd y grŵp llywio'n adrodd drwy'r strwythur llywodraethu sefydledig i'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA) a'r Bwrdd Academaidd.

16. I danategu'r trefniadau hyn, datblygwyd cynllun cyfathrebu i gryfhau ymgysylltiad â'r staff a'r myfyrwyr ymhellach, gyda chefnogaeth cyfres o gyflwyniadau a sesiynau hysbysu i roi cefndir a chyd-destun i'r dull. Yn y pen draw, lluniwyd y ddogfen hunanwerthusiad gyda mewnbwn gan gynrychiolwyr y myfyrwyr ac aelodau o'r staff academaidd a'r staff cymorth proffesiynol.

## Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn yr hunan-ddadansoddiad

17. Mae blaenoriaethau gwelliant y Brifysgol yn canolbwyntio ar Ddatblygiad Academaidd, Partneriaethau Academaidd, a Monitro ac Adolygu. Mae'r rhain wedi eu hysbysu gan adolygiadau allanol, dysgu o brofiad ac adborth o ddata.

18. Roedd staff y Brifysgol yn gallu rhoi rhesymau argyhoeddiadol ynglŷn â pham y dewiswyd y blaenoriaethau gwelliant hyn, ac i ddwy ohonynt - Partneriaethau Academaidd a Monitro ac Adolygu - dywedodd mai Ymchwiliad i Bryderon (gwelwch dudalen 1) oedd y prif reswm am hyn.

19. I weithredu'r gwelliannau strategol, mae'r Brifysgol wedi rhoi cynlluniau gweithredu blynyddol ar waith, yn cynnwys cynllun penodol ar gyfer cynorthwyo dysgu a chyflawniad myfyrwyr sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor ADA. Yn ogystal, mae Fframwaith Gwella Ansawdd y Brifysgol yn nodi'n eglur bod yn rhaid cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o weithredu gwelliannau drwy eu systemau adborth arferol, gan gynnwys wrth ddilysu ac ail-ddilysu rhaglenni.

## Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

20. Derbyniodd y Brifysgol ganlyniad cadarnhaol o'r Adolygiad GA diweddaraf a gafwyd yn 2019, oedd yn nodi dwy ganmoliaeth, un cadarnhad ac un argymhelliad. Mewn ymateb i hyn, cymerwyd y camau gweithredu ymlaen drwy weithgor a thrwy'r Pwyllgor ADA. Mae'r Brifysgol wedi adeiladu ar yr argymhelliad i werthuso profiad y myfyrwyr ôl-raddedig, ac mae'n parhau i geisio adborth gan y myfyrwyr hyn gyda rhagor o gyfranogaeth. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cyflwyno newid drwy gynnwys un o swyddogion Undeb y Myfyrwyr ar bob pwyllgor perthnasol, yn ogystal â chynrychiolydd y myfyrwyr doethuriaeth. Erbyn hyn, mae tri chynrychiolydd y myfyrwyr yn eistedd ar y Pwyllgor Ymchwil, ac mae ei agenda'n cynnwys adborth gan gynrychiolwyr y myfyrwyr ac adroddiad gan Undeb y Myfyrwyr fel eitemau sefydlog.

## 2. Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Wrecsam yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.
- Mae Prifysgol Wrecsam yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

### Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad GA ddwy ganmoliaeth, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Dull strategol y Brifysgol o ateb anghenion y rhanbarth, gan gynnwys ei phwyslais ar hybu cynhwysiant ac ehangu mynediad, a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant ac economi Cymru (paragraff 48).
- Y gwaith a wneir ar draws y Brifysgol gyfan i integreiddio arferion cynhwysol, sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ym mhob rhan o'r cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu, er mwyn galluogi i bob un o'i myfyrwyr gyflawni eu potensial (paragraff 58).

### Yr argymhellion

Mae tîm yr Adolygiad GA yn gwneud un argymhelliad, sydd wedi ei grynhoi isod.

- Dylai'r Brifysgol sicrhau bod y trefniadau tiwtora personol yn cael eu gweithredu'n gyson er budd y myfyrwyr (paragraff 55).

### Meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus

Nododd tîm yr Adolygiad GA nifer o feysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y camau sy'n cael eu cymryd i gasglu barn y myfyrwyr mewn ffordd gyson a chymesur er mwyn ymgysylltu â'r myfyrwyr a chasglu adborth ganddynt yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl (paragraff 40).
- Y camau sy'n cael eu cymryd i barhau i adolygu darpariaeth deunyddiau llyfrgell digidol a ffisegol i'r myfyrwyr (paragraff 53).
- Y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl farciau ar gyfer cyrsiau byr yn cael eu cyflwyno i, ac yna eu hystyried gan, fwrdd arholi o fewn yr amseriad a drefnwyd (paragraff 70).
- Y dylid cadw llygad craff ar rôl y Bwrdd Llywodraethwyr o ran cymeradwyo a goruchwylio trefniadau ar gyfer partneriaethau academaidd (paragraff 82).
- Y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer cymeradwyo partneriaethau newydd, ac ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau mewn partneriaethau academaidd (paragraff 84).
- Y camau sy'n cael eu cymryd i fonitro a goruchwylio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer diogelu safonau academaidd, a sicrhau ansawdd, a phrofiad y myfyrwyr, wrth i raglenni darpariaeth gydweithredol gael eu 'haddysgu allan' neu eu terfynu (paragraff 86).

## Pryderon

21. Cadarnhaodd y tîm fod y cynllun gweithredu ar gyfer y Broses Ymchwilio Pryderon wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus (paragraffau 91 i 133).

## 3. Datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant

22. Mae dull y Brifysgol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr yn cynnwys mentrau a blaenoriaethau sy'n ymwneud â thair blaenoriaeth o ran gwelliant: Datblygiad Academaidd, Partneriaethau Academaidd, a Monitro ac Adolygu. Mae'r dull tanategol o gyflawni'r blaenoriaethau hyn wedi ei seilio ar ddysgu profiadol, defnyddio data ac adborth, a dysgu o adolygiadau allanol. Gwerthusodd y tîm y dull a bu'n trafod ei effaith ar waith y Brifysgol gyda'r pennaeth ac uwch dîm y darparwr.

23. Canfu'r tîm adolygu fod Fframwaith Gwella Ansawdd 2024-2028 cyfredol y Brifysgol yn darparu ar gyfer dull strategol a chylchol o sicrhau gwelliant parhaus gyda ffocws clir ar ymgysylltiad myfyrwyr, a goruchwyliaeth o fewn ei strwythur llywodraethu. Yr hyn sy'n gyrru'r gwaith hwn yw'r Tîm Datblygu Academaidd, sy'n gweithredu ag aelodau craidd gydag ychwanegiad staff o bob rhan o'r Brifysgol mewn Rhwydwaith o Gymdeithion sydd wedi eu halinio â phrosiectau penodol. Esiampl o brosiect o'r fath yw'r fenter 'CREATE' (ystyr yr acronym Saesneg yw cydweithio wrth adolygu a gwella asesiadau a rhagoriaeth addysgu), sy'n hyrwyddo gwelliant ym meysydd y Gymraeg a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws y cwricwlwm.

24. Cesglir adborth i hysbysu gwelliant drwy amrywiaeth o gyfryngau, sy'n cynnwys fforymau llais y myfyrwyr, gwerthusiadau o fodiwlau, arolygon myfyrwyr a phecyn cyfrifiadurol pwrpasol sy'n casglu ac yn cyfuno adborth gan y myfyrwyr. Mae cynrychiolwyr o blith y myfyrwyr ar bob pwyllgor allweddol sy'n rhan o strwythur llywodraethu'r Brifysgol. Nododd y tîm adolygu fod y dull gwella hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi arwain, er enghraifft, at ddatblygu canllawiau ynglŷn â beth yw defnydd priodol o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn asesiadau'r Brifysgol.

### Sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr

25. Canfu'r tîm adolygu fod y Fframwaith Gwella Ansawdd wedi ei seilio ar ymrwymiad sylfaenol i wella profiad y myfyrwyr yn barhaus. Mae wedi ei seilio ar bum egwyddor, sy'n cynnwys dull strategol a chylchol, gyda chyfleoedd eglur i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn prosesau. Darperir goruchwyliaeth gan y Bwrdd Academaidd a'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA), a rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd yn rhoi enghreifftiau o weithgareddau y gellid eu cymryd ar bob cam o gyfranogaeth y myfyrwyr yn y gwaith ar y camau hyn, ac mae'r staff yn dweud bod cyfranogaeth y myfyrwyr mewn systemau ansawdd yn rhan hanfodol o ganfod meysydd sydd angen eu gwella yn y dyfodol a meysydd o arfer da.

26. Mae'r Tîm Datblygu Academaidd yn cynnwys tîm craidd, sef y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol, y Deoniaid Cyswllt ac aelodau eraill o'r staff uwch, yn ogystal â Rhwydwaith eang o Gymdeithion sy'n cynnwys aelodau o'r staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol, aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol ac aelodau o blith y myfyrwyr. Mae'r tîm craidd hwn yn gyfrifol am gyfres o brosiectau, gan ddefnyddio model dosranedig o gyfrifoldeb sy'n galluogi i unigolion gwahanol gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am dasgau. Maen nhw'n adrodd i'r Pwyllgor ADA. Mae'r prosiectau wedi eu llunio i fynd i'r afael ag un neu fwy o'r tair blaenoriaeth o ran gwelliant (gwelwch baragraff 28).

27. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y dull strategol a fabwysiadwyd gan y Brifysgol er mwyn gwella profiad y myfyrwyr yn amlwg golegol ei natur, ac yn cynnwys y myfyrwyr yn rhan annatod o'r broses wella a'r blaenoriaethau gwelliant.

## Sylwadau ar y camau a gymerir i sicrhau bod y blaenoriaethau gwelliant yn cael eu gweithredu'n effeithiol

28. O'r tair blaenoriaeth o ran gwelliant (gwelwch baragraff 17) nododd y tîm fod gwaith mewn perthynas â Datblygiad Academaidd (blaenoriaeth gwelliant 1) ar gam datblygedig ac wedi'i ymwreiddio drwy'r Fframwaith Dysgu Academaidd, sy'n ddull penodol o ddatblygu mentrau dysgu cyfunol (gwelwch baragraff 45). Mae'r Tîm Datblygu Academaidd a'i Rwydwaith o Gymdeithion (a grëwyd yn 2016) wedi ei sefydlu'n dda ar draws y Brifysgol, ac mae'n cefnogi, yn datblygu ac yn ymwreiddio diwylliant o wella. Er enghraifft, dywedodd y myfyrwyr fod y llinyn gwaith 'Asesu ac Adborth' wedi arwain at gyd-greu canllaw hawdd ei ddarllen i fyfyrwyr ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn asesiadau. Yn ogystal, mae'r gwaith a wneir gyda'r prosiect TrACE (trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod [Trauma and Adverse Childhood Experience]), sy'n ceisio ehangu cyfranogaeth y garfan hon o fyfyrwyr, yn hysbysu arferion dysgu ac addysgu ar draws y sefydliad. Datblygwyd astudiaethau achos yn rhan o'r prosiect sydd wedi cael eu defnyddio i ledaenu'r gwaith i gynulleidfa eang.

29. Mae Partneriaethau Academaidd (blaenoriaeth gwelliant 2, gwelwch baragraff 17) yn adeiladu ar rai o'r pryderon a godwyd yn rhan o'r Ymchwiliad i Bryderon a gafwyd gan QAA yn 2023 (gwelwch hefyd adran 7). Rhoddwyd pwyslais strategol ar ail ddiffinio rolau arwain, gwerthuso strwythurau llywodraethu, cryfhau prosesau diwydrwydd dyladwy a phrosesau gwneud penderfyniadau, ac annog y myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner i ymgysylltu â'r Brifysgol. Rhoddodd y myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner sylwadau cadarnhaol am eu hymgysylltiad â'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i'w helpu i ddeall pwysigrwydd llais y myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn defnyddio ystod o ddulliau i gasglu adborth gan ei phoblogaeth myfyrwyr sy'n cynnwys system gynrychiolaeth y myfyrwyr, arolygon myfyrwyr, ap adborth pwrpasol, ac ymwreiddio cynrychiolaeth y myfyrwyr yn y strwythur pwyllgorau ymgynghori.

30. Mae Monitro ac Adolygu (blaenoriaeth gwelliant 3) yn ymwneud â chyflwyno prosesau Monitro a Gwella Parhaus (MGP), a gymerodd le'r trefniadau blaenorol, ac sydd hefyd yn ymwneud â datblygiadau i'r broses ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo rhaglenni (gwelwch baragraff 29). Cydnabuwyd bod asesiadau ar sail gwaith go iawn yn arfer da yn y broses MGP ar gyfer Peirianneg yn ystod 2022-23 a rhannwyd hyn ar draws y Brifysgol gyfan. Mae adroddiadau arholwyr allanol hefyd yn cynnwys cyfeiriadau cadarnhaol at ddefnyddio astudiaethau achos o'r diwydiant a darparu cyfarpar ac offer o safon ddiwydiannol. Atgyfnerthir yr adborth gan y myfyrwyr drwy'r broses MGP, ac mae'n cael ei gynnwys mewn cynlluniau gweithredu lle bo'n briodol, ynghyd â manylion y cynnydd a'r cwblhad.

31. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ystod o gamau gweithredu wedi cael eu cymryd i gyflawni blaenoriaethau gwelliant y Brifysgol, er bod y rhain ar wahanol gamau o'u cyflawniad. Os edrychwn ar Ddatblygiad Academaidd (blaenoriaeth gwelliant 1), roedd hi'n amlwg bod y camau gweithredu wedi cael effaith gadarnhaol yn barod ar brofiad y myfyrwyr o ran eu hymgysylltiad â'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae Partneriaethau Academaidd (blaenoriaeth gwelliant 2) a Monitro ac Adolygu (blaenoriaeth gwelliant 3) ar gam cynharach yn eu datblygiad, ond mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos effeithiau cadarnhaol yn y ddwy, gan gynnwys adroddiadau'r arholwyr allanol y cyfeirir atynt uchod.

## Sylwadau am y broses o werthuso canlyniadau'r blaenoriaethau gwelliant, ac o adrodd amdanynt, a'r ffordd y mae hyn yn hysbysu datblygiadau a gweithgareddau gwella yn y dyfodol

32. I weithredu gwelliannau strategol, mae'r Brifysgol yn rhoi cynlluniau gweithredu blynyddol ar waith, megis cynllun gweithredu'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (Strategaeth CDChM), sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor ADA. Mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd yn nodi'n glir y dylid cynnwys y myfyrwyr wrth roi cynlluniau gweithredu ar waith drwy eu systemau adborth arferol.

33. Mae'r Brifysgol yn defnyddio ei phroses MGP sy'n bwydo drwodd o lefel y modiwl i lefel y rhaglen hyd at lefel y maes astudio. Yna, mae adroddiad adolygu ar lefel y maes astudio'n cael ei drafod ar lefel y gyfadran, gan ganiatáu canfod unrhyw themâu cyffredin y gellir rhoi gwybod amdanynt wedyn yn rhan o'r adroddiad goruchwyliaeth cyfadrannol i'r Pwyllgor ADA ar ddiwedd pob blwyddyn - pwyllgor sydd, yn ei dro, yn atebol i'r Bwrdd Academaidd. Clywodd y tîm adolygu am y ffordd y mae'r broses MGP yn cefnogi canfod meysydd o arfer da a meysydd sydd angen eu gwella, yn ogystal â gwerthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau cyfredol. Ar gyfer nifer o strategaethau allweddol, megis y Strategaeth CDChM, cynhelir cynlluniau gweithredu penodol i werthuso cynnydd a rhoi gwybod amdano.

34. Mewn ymateb i'r Ymchwiliad i Bryderon a gafwyd gan QAA, (gwelwch adran 7 isod), sefydlwyd y broses Archwiliad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol (Archwiliad SAB) i ganfod meysydd o arfer da a meysydd sydd angen eu gwella. Yn rhan o'r broses hon, mae'r Pennaeth Ansawdd yn llunio adroddiad ansawdd blynyddol mewnol i'r Bwrdd Academaidd. Yr adroddiad diweddaraf yw adroddiad am brosesau sicrhau ansawdd yn 2023-24 ac mae hwn yn gwneud argymhellion ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol (2024-25). Yn ogystal, llunnir adroddiad am weithdrefnau ar gyfer myfyrwyr i'r Bwrdd Academaidd, ac mae hwn yn cynnwys sylwadau am effeithiolrwydd y gweithdrefnau ar gyfer myfyrwyr. Mae hwn hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

35. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y trefniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaethau gwelliant ac adrodd amdanynt yn gweithio'n effeithiol, o dan oruchwyliaeth briodol y Bwrdd Academaidd, a'r lefelau uchaf yn y sefydliad, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Roedd defnyddio blaenoriaethau penodol yn rhoi ffocws i ddull y Brifysgol, a galluogodd hyn, yn ei dro, i'r tîm adolygu ddod i'r casgliad bod y trefniadau'n effeithiol.

# 4. Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr

36. Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol i gefnogi a gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr. Bu'r tîm yn ystyried ystod o ddogfennau, yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau sefydliadol allweddol sydd â chyfrifoldebau am safonau academaidd ac ansawdd, dysgu ac addysgu, a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm â'r staff a'r myfyrwyr.

## Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

37. Bu'r tîm adolygu'n ystyried y ffordd y mae'r Brifysgol yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol drwy gydol y broses o gynllunio, dilysu ac ail-ddilysu ei rhaglenni. Mae pwyntiau cyfeirio megis y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a Datganiadau Meincnodi Pwnc yn cael eu defnyddio i hysbysu prosesau datblygu rhaglenni a, thrwy hynny, sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu dysgu yn unol â'r safonau cyfredol ar gyfer y meysydd astudio a bod y cyrsiau wedi eu llunio yn unol â'r canllawiau ansawdd cyfredol. Hefyd, mae'r Brifysgol yn gofyn i arholwyr allanol roi sylwadau am aliniad â'r pwyntiau cyfeirio hyn (gwelwch baragraff 30). Mae Adroddiad Ansawdd Blynyddol y Brifysgol yn ystyried sut yr ymgynghorwyd â meincnodau allanol wrth wneud unrhyw newidiadau i reoliadau, polisïau neu weithdrefnau yn rhan o'r broses Archwiliad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol (Archwiliad SAB).

38. Y tu allan i'r prosesau sicrhau ansawdd ffurfiol, bu'r tîm hefyd yn ystyried amrywiaeth o ffyrdd y mae'r Brifysgol yn defnyddio allanoldeb i ddod â dyfnder a pherthnasedd i brofiad dysgu'r myfyrwyr. Er enghraifft, cafwyd cyfranogaeth helaeth gan randdeiliaid allanol wrth ail ddatblygu'r rhaglen BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymuned er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn alinio ag anghenion y gymuned a'r proffesiwn. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn ymestyn i gyfranogaeth y Brifysgol ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a rhaglen Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru. Yn ogystal, mae mentrau megis y grŵp 'Outside In' yn dod ag ymarferwyr i mewn i amgylchedd dysgu'r myfyrwyr yn uniongyrchol drwy addysgu, yn ogystal â bwydo i mewn i ddigwyddiadau cynllunio a dilysu rhaglenni. Mae 'Outside In' yn grŵp ffocws a ffurfiwyd yn 2006, lle mae pobl yn rhannu eu profiadau bywyd go iawn o niwroamrywiaeth, cyflyrau iechyd amrywiol, namau synhwyraidd, a rhoi gofal gyda myfyrwyr sy'n astudio graddau perthnasol. Ar y cyfan, daeth y tîm i'r casgliad bod y dystiolaeth yn dangos bod y Brifysgol yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.

## Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr

39. Bu'r tîm yn adolygu amrywiaeth o ffyrdd y mae'r Brifysgol yn casglu ac yn ystyried adborth gan y myfyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys Gwerthusiadau Myfyrwyr o Fodiwlau sy'n gyfleoedd mewn modiwlau i roi adborth, arolygon allanol o fyfyrwyr, ap adborth i fyfyrwyr sydd ar gael i'r staff a chynrychiolwyr y myfyrwyr, system gynrychiolaeth y myfyrwyr a Fforymau Llais y Myfyrwyr a gynhelir yn rheolaidd yn y Brifysgol a'i sefydliadau partner. Mae'r Brifysgol yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau cynrychiolaeth ei myfyrwyr yn ei strwythur pwyllgorau ymgynghori, a phenodwyd Llywydd Undeb y Myfyrwyr i gynrychioli barn y myfyrwyr ar y Bwrdd Llywodraethwyr yn 2023. Mae'r systemau hyn wedi eu ffurfioli ym Mholisi a Fframwaith Cyfranogaeth Myfyrwyr mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd y Brifysgol, a ddatblygwyd ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr.

40. Disgrifiodd y staff sut mae'r broses MGP yn galluogi iddynt gyfuno adborth y myfyrwyr o'r mecanweithiau niferus sydd ar gael, a gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth i ddangos bod adborth y myfyrwyr wedi ei integreiddio a'i grynhoi yn adroddiadau'r broses MGP ar lefelau'r

rhaglenni a'r cyfadrannau. Dywedodd y myfyrwyr hefyd eu bod yn teimlo'n hyderus ar y cyfan yn siarad â'r staff yn uniongyrchol am unrhyw bryderon sydd ganddynt. Ond, yn ystod yr ymweliad adolygu, soniodd y myfyrwyr hefyd bod amrywiaeth y dulliau o gipio llais y myfyrwyr yn gallu achosi dryswch, a bod cael dulliau niferus o roi adborth yn ei gwneud hi'n aneglur weithiau a oes rhywun wedi mynd i'r afael â phroblem ai peidio. Nododd y tîm adolygu fod adolygu adborth ac arolygon myfyrwyr yn fater sy'n derbyn sylw gan Dîm Datblygu Academaidd y Brifysgol yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Nododd y tîm adolygu mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r camau sy'n cael eu cymryd i gasglu barn y myfyrwyr mewn ffordd gyson a chymesur er mwyn ymgysylltu â'r myfyrwyr a chasglu adborth ganddynt yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl.

41. I gryfhau llais y myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner, mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr wedi mynd gyda chynrychiolwyr y Brifysgol ar ymweliadau wyneb yn wyneb a wnaed yn rhan o'r broses barhaus o adolygu partneriaid academaidd. Clywodd y tîm adolygu gan fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner fod hyn wedi bod yn effeithiol o ran hybu ymwybyddiaeth o'r mecanweithiau ar gyfer cipio llais y myfyrwyr, a bod y Brifysgol yn bwriadu parhau i gefnogi ymweliadau o'r fath yn y dyfodol er mwyn parhau i gryfhau llais y myfyrwyr sy'n astudio yn ei sefydliadau partner. Daeth y tîm i'r casgliad bod trefniadau yn eu lle ar gyfer casglu adborth gan y myfyrwyr, a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

## Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

42. Y Polisi a Fframwaith Cyfranogaeth Myfyrwyr mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd, a'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (Strategaeth CDChM), yw prif ganllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud â themâu datblygu'r dysgu a'r addysgu, a chynnwys 'myfyrwyr fel partneriaid' yn y prosesau. Mewn gwaith pob dydd cyflawnir hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cyfranogaeth y myfyrwyr yn y rhan fwyaf o'r digwyddiadau dilysu ac ail-ddilysu a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, diwylliant o drafodaeth a deialog agored gyda'r myfyrwyr, a chyfranogaeth y myfyrwyr mewn mentrau megis y Tîm Datblygu Academaidd, y gall myfyrwyr fod yn aelodau cyswllt ohono ochr yn ochr â chynrychiolwyr y staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae 30 o fyfyrwyr ar draws y Brifysgol sy'n gweithredu fel 'Hyrwyddwyr' y prosiect TrACE (trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod), ac mae'r myfyrwyr hynny'n cymryd rhan mewn cyflwyno'r gwaith hwn mewn digwyddiadau cenedlaethol.

43. Hefyd, mae partneriaeth y Brifysgol gydag Undeb y Myfyrwyr wedi galluogi i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn prosesau allweddol ar gyfer adolygu a sicrhau ansawdd. Er enghraifft, bu swyddogion Undeb y Myfyrwyr ac adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn cymryd rhan yn ddiweddar mewn proses o adolygu'r Weithdrefn 'Cylch Oes Rhaglen'. O ganlyniad i'r adolygiad, os bydd y myfyriwr wedi cyfranogi mewn Adolygiad 'Cylch Oes Rhaglen', bydd y trawsgrifiad i'r myfyriwr yn cydnabod y ffaith hon drwy gynnwys modiwl 'dim credyd' sydd â'r teitl 'Cydnabyddiaeth am Gyfranogi mewn Gwella a Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch'. Hefyd, mae Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr wedi ymuno â llinyn gwaith Asesu ac Adborth y Tîm Datblygu Academaidd, sydd wedi arwain at wneud newidiadau i'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer estyniadau tymor byr er budd y myfyrwyr. Teimlai'r tîm fod y trefniadau sydd yn eu lle i fyfyrwyr weithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu'n gweithio'n effeithiol.

## Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu

44. Mae gan y Brifysgol Strategaeth CDChM a chynllun gweithredu cysylltiedig a adolygir yn flynyddol gan y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu sy'n monitro gweithrediad mentrau gwella a chyflawniad targedau. Mae'r Strategaeth CDChM wedi ei chysylltu at Weledigaeth a

Strategaeth y Brifysgol, ac mae'n canolbwyntio ar 'Addysgu sy'n Ysbrydoli', lle hysbysir y dysgu gan fyd gwaith, ac y mae'n berthnasol i fydd gwaith, gan gynhyrchu graddedigion sy'n fedrus, yn wybodus ac yn entrepreneuraidd. Mae'r Strategaeth CDChM yn nodi pum prif faes gweithredu: 'cwricwlwm sy'n berthnasol', 'addysgu gwych', 'dulliau asesu arloesol', 'cymorth wedi'i bersonoli', a 'myfyrwyr fel partneriaid'.

45. Mae'r Fframwaith Dysgu Academaidd yn eistedd wrth galon y Strategaeth CDChM ac mae'n cofleidio dulliau o ddysgu, addysgu ac asesu sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn hyblyg er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i'r myfyrwyr ymgysylltu â'u dysgu. Mae'r Fframwaith Dysgu Academaidd yn ddull dysgu ac addysgu sy'n rhoi profiad y myfyrwyr wrth ei wraidd, gan greu ymdeimlad o berthyn drwy gynnig darpariaeth ddysgu gyfunol sy'n hyblyg ac yn hygyrch. Mae'r Tîm Datblygu Academaidd yn tanategu datblygiad y Strategaeth CDChM ac yn cefnogi'r Brifysgol i ddatblygu ac ymwreiddio diwylliant o newid a gwella'r dysgu a'r addysgu mewn ffordd gadarnhaol. Mae gan y Tîm Datblygu Academaidd nifer o brosiectau sy'n hwyluso cydweithrediad y Strategaeth CDChM ymhellach, gan gynnwys y fenter 'CREATE' (cydweithio wrth adolygu a gwella asesiadau a rhagoriaeth addysgu) sy'n cefnogi cynllunio a datblygu rhaglenni ym meysydd cyflogadwyedd, y Gymraeg a chydraddoldeb ac amrywiaeth, er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i fod â chwricwlwm sy'n berthnasol. Nododd y tîm adolygu fod y dull strategol hwn yn ymateb yn eglur hefyd i anghenion penodol yr ardal leol a'r rhanbarth ehangach. Cyflwynwyd nifer o esiamplau i'r tîm adolygu oedd yn dangos yn glir sut mae prosiectau'r Tîm Datblygu Academaidd yn cysylltu'r gwaith dadansoddi data â chamau gweithredu ar draws y Brifysgol gyfan mewn dull cyson sy'n cynnwys aelodau o staff y gwasanaethau proffesiynol a'r staff academaidd. Er enghraifft, mae prosiect 'Sgiliau Digidol' y Tîm Datblygu Academaidd wedi ystyried datblygiad sgwrsbotiaid deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol; tra bo llinyn gwaith 'Cyfrwng Cymraeg' y Tîm Datblygu Academaidd yn cefnogi datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn unol â Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

46. Nododd y tîm fod gan y Brifysgol nifer o fentrau ehangu cyfranogaeth. Nod y dulliau hyn ar y cyd yw gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu i garfan eang, ac maent yn cynnwys:

- rhwydwaith CLASS Cymru sydd wedi ei dargedu'n benodol at oedolion ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant a phobl ifanc mewn gofal, gofal perthynas, ymadawyr â gofal a'r rheiny sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd
- prosiectau sy'n gysylltiedig â chodau post mewn ardaloedd blaenoriaeth gwledig a threfol gyda'r cymunedau sydd anoddaf eu cyrraedd
- cyfranogaeth yn y fenter 'Ymestyn yn Ehangach' sydd hefyd yn canolbwyntio ar grwpiau o bobl sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg uwch ar hyn o bryd, gan gynnwys y rheiny sydd eisiau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

47. Mae'r Brifysgol hefyd wedi mabwysiadu Llwybrau Cymraeg yn y Gweithle er mwyn sicrhau bod gan y myfyrwyr, gan gynnwys y rheiny nad ydynt yn Gymry Cymraeg, y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol i weithio mewn swyddi dwyieithog hanfodol yn y sector cyhoeddus megis plismona, a thrwy hynny, gefnogi gwaith y Brifysgol i gyflawni ei chenhadaeth ddinesig. Mae llinyn gwaith TrACE y Tîm Datblygu Academaidd yn esiampl arall o'r ffordd y mae'r Tîm Datblygu Academaidd yn gweithio i hybu cenhadaeth ddinesig y Brifysgol ac i gynnwys y myfyrwyr fel partneriaid gweithredol (gwelwch hefyd baragraff 53).

48. Ar y cyfan, daeth y tîm i'r casgliad bod gan y Brifysgol ddull effeithiol o wella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Mewn tystiolaeth ddogfennol a chyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr, gwelwyd yn eglur yr effaith a gafodd y dull hwn ar y gwaith o ddydd i ddydd i wella'r dysgu a'r addysgu yn y Brifysgol. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y Brifysgol am ei dull strategol o ateb anghenion y rhanbarth, gan gynnwys ei phwyslais ar hybu cynhwysiant ac ehangu mynediad, a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant ac economi Cymru.

## Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu

49. Mae'r Strategaeth CDChM yn yrrwr allweddol yn y gwaith o werthuso dull y Brifysgol o wella profiad dysgu ac addysgu'r myfyrwyr. Mae'r Strategaeth CDChM yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA). Yn ogystal, mae'r broses Monitro a Gwella Parhaus (MGP) yn tanategu dull y Brifysgol o sicrhau ansawdd a'i wella'n barhaus. Disgrifiodd y Brifysgol y broses MGP fel proses 'fyw' seiliedig ar dystiolaeth lle ceir sylwadau parhaus gan dimau'r rhaglenni, sy'n canolbwyntio i ddechrau ar lefel y rhaglenni, ac yn arwain at adroddiad goruchwyliaeth cyfadrannol blynyddol.

50. Rhoddwyd esiamplau i'r tîm adolygu i ddangos yn eglur bod y broses MGP yn cynnwys cynlluniau gweithredu sy'n edrych tuag ymlaen, lle gellir dilyn trywydd adborth gan y myfyrwyr hyd at yr ymateb a geir iddo mewn cynlluniau gweithredu, ac yna fanylion y cynnydd a'r cwblhad. Mae hyn yn hyrwyddo ymatebion amserol i adborth y myfyrwyr ac yn helpu i ddatrys unrhyw broblemau gyda darparu er mwyn galluogi gwelliannau cyn gynted ag y bydd data a thystiolaeth ar gael (gwelwch baragraffau 30 a 72).

51. Mae elfennau allweddol Fframwaith Gwella Ansawdd y Brifysgol yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer casglu adborth gan y myfyrwyr, a chyfranogaeth y myfyrwyr mewn pwyllgorau ac mewn prosesau o gynllunio a datblygu rhaglenni. Nod y mecanweithiau hyn yw sicrhau bod llais y myfyrwyr yn derbyn ystyriaeth briodol wrth fyfyrio ymhellach ar fentrau dysgu ac addysgu gan alluogi camau gweithredu a gwelliannau amserol. Yn ogystal, cyflwynir adroddiad ansawdd blynyddol i'r Bwrdd Academaidd sy'n myfyrio ar weithgareddau a phrosesau sicrhau ansawdd ac yn argymell gwneud gwelliannau neu addasiadau pellach. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu'n effeithiol.

## Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr

52. Bu'r tîm adolygu'n ystyried amrywiaeth eang o fecanweithiau ar gyfer darparu cymorth academaidd a bugeiliol a chymorth dysgu i'r myfyrwyr. Mae Siarter y Myfyrwyr yn nodi ymrwymiadau'r Brifysgol i'w myfyrwyr.

53. Mae amrywiaeth eang o ofodau dysgu ffisegol a rhith-amgylchedd dysgu ar gael i'r myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfleoedd, megis Diwrnod Digwyddiad Mawr blynyddol, sy'n dod â myfyrwyr o feysydd astudio perthnasol at ei gilydd i gael profiad dysgu o gydweithio efelychol rhwng asiantaethau; a diwrnodau cydweithio rhwng y proffesiwn nyrsio a phroffesiynau eraill sy'n berthynol i iechyd er mwyn dysgu am gydweithio rhwng asiantaethau. Mae buddsoddiad diweddar mewn adnoddau digidol, a ffurfiolwyd drwy Strategaeth Digidol y Brifysgol, wedi dod â gwelliannau i'r cysylltiad Wi-Fi ar y campws. Yn ystod y broses adolygu, mynegodd rai o'r myfyrwyr bryderon am yr adnoddau llyfrgell, gan nodi bod y mynediad at gylchgronau a llyfrau digidol a ffisegol y maent eu hangen ar gyfer eu hastudiaethau'n anghyson, ond siaradodd myfyrwyr eraill yn gadarnhaol am yr adnoddau llyfrgell sydd ar gael iddyn nhw. Mae gwerthuso'r ddarpariaeth adnoddau llyfrgell ac adnoddau digidol yn rhan o'r cynllun gweithredu a luniwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr eleni. Mae'r tîm adolygu'n cydnabod mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r camau sy'n cael eu cymryd i barhau i adolygu darpariaeth deunyddiau llyfrgell digidol a ffisegol i'r myfyrwyr.

54. Roedd amrywiaeth yn y farn a roddwyd gan y myfyrwyr am asesiadau ac adborth. Siaradodd rhai o'r myfyrwyr yn gadarnhaol am yr adborth a roddwyd iddynt gan gyfeirio at ganllawiau marcio clir, argaeledd y staff i drafod materion ymhellach, a'r adborth sydd wedi eu helpu nhw i ddatblygu eu gwaith. Fodd bynnag, soniodd rhai o'r myfyrwyr am adborth nad oedd yn ddigon manwl i'w helpu nhw i ddeall eu marciau, neu nid oeddent yn deall sut yr oedden nhw'n cael eu hasesu yn erbyn meini prawf marcio, ac mewn rhai achosion nid oeddent wedi

derbyn y cyfarwyddiadau asesu nes oedd y dyddiadau cyflwyno nesaf bron â chyrraedd. Er bod yr adborth a gafwyd gan arholwyr allanol ymhob rhan o'r Brifysgol yn gyffredinol gadarnhaol, dywedodd nifer bychan nad oeddent yn teimlo bod yr adborth yn dangos yn ddigon clir ym mha feysydd yr oedd angen gwelliant neu'n cadarnhau'n ddigon clir bod deilliannau dysgu wedi eu cyflawni.

55. Mae'r Brifysgol yn cynnig cynllun tiwtora personol lle cynigir tri chyfarfod y flwyddyn i bob myfyriwr, a rhoddir gwybod iddynt am hyn yn ystod eu cyfnod cynefino. Er bod pob myfyriwr yn cael tiwtor personol, a bod system archwilio yn ei lle i sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu cynnig drwy'r rhith-amgylchedd dysgu, nid oedd nifer o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw wedi clywed am eu tiwtoriaid personol neu nid oedd apwyntiad wedi cael ei gynnig iddynt cyn belled ag y gwyddent. Nododd myfyrwyr eraill fod y templedi a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd yn canolbwyntio ar fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, felly roedden nhw'n teimlo bod tiwtora personol yn aneffeithiol iddynt mewn blynyddoedd dilynol. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Brifysgol sicrhau bod y trefniadau tiwtora personol yn cael eu gweithredu'n gyson er budd y myfyrwyr.

56. Cydnabu'r tîm adolygu fod y Brifysgol yn cynnig gwasanaeth cymorth myfyrwyr cryf, sydd wedi ei gydlynu gan y Gwasanaethau Bywyd Myfyrwyr a Bywyd ar y Campws. Mae un pwynt mynediad ar gael i'r myfyrwyr sydd wedi cynnig gwasanaeth 24 awr ar gyfer pryderon brys ers 2022. Cytunodd y myfyrwyr fod y gwasanaeth hwn yn hynod weledol ac yn hawdd cael gafael arno ar-lein ac ar y campws. Mae'r ystod o fentrau y mae'r Gwasanaethau Cynhwysiant yn eu cynnig i'r myfyrwyr yn haeddu sylw arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai pontio, cyfle i aelod o'r staff gael ei hyfforddi fel mentor Lwfans Myfyrwyr Anabl sy'n arbenigwr mewn anhwylderau sbectrwm awtistiaeth, a chydweithrediad rhwng y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig lleol a Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth fewnol o awtistiaeth a gwell llwybrau atgyfeirio i'r myfyrwyr. Mae'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr wedi elwa o fuddsoddiad diweddar mewn meddalwedd rheoli achosion sy'n caniatáu atebion awtomataidd i gwestiynau cyffredin, gan greu cynnig mwy cydlynol felly i bobl sy'n ffonio'r llinell gymorth.

57. Hefyd, bu'r tîm adolygu'n ystyried gwaith y Brifysgol, a gydlynir gan y Tîm Datblygu Academaidd, i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o TrACE. Dyma rai esiamplau o ganlyniadau'r gwaith hwn y gellir eu gweld ar draws y Brifysgol: rhai rhaglenni lle rhoddir adborth canol dydd i alluogi i'r myfyrwyr gael gafael ar wasanaethau cymorth yn syth wedyn os bydd ei angen; ystyriaeth o gynllun yr amgylchedd ffisegol ac adolygiad diweddar o'r ffordd y mae polisïau'n cael eu hysgrifennu'n hygyrch i fyfyrwyr a allai fod mewn trallod.

58. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y gwaith a wneir ar draws y Brifysgol gyfan i integreiddio arferion cynhwysol, sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ym mhob rhan o'r cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu, er mwyn galluogi i bob un o'i myfyrwyr gyflawni eu potensial.

## Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt

59. Mae gan y Brifysgol Strategaeth Pobl a Diwylliant sydd wedi ei halinio â Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol, gyda'r nod o gefnogi a thanategu ei hamcanion i 'ddenu, datblygu a chadw staff ac ymgysylltu â nhw', ac mae'r strategaeth honno'n cynnwys amcanion strategol a chynllun gweithredu cysylltiedig. Mae effeithiolrwydd y Strategaeth Pobl a Diwylliant yn cael ei fonitro'n rhannol gan yr Arolwg Ymgysylltiad Staff a wneir bob dwy flynedd. Daw canlyniadau mwyaf diweddar yr Arolwg hwn o 2022 ac maen nhw'n dangos lefelau uchel o ymgysylltiad cadarnhaol gan y staff â pholisïau'r Brifysgol. Hefyd, mae gan y Brifysgol bolisi penodi ar gyfer swyddi academaidd sy'n gofyn bod gan y staff addysgu radd doethuriaeth, neu eu bod yn ymrwymo i weithio tuag at gyflawni un. Mae Arolwg Ymgysylltiad Staff 2024 wedi ei ohirio hyd 2025 i ganiatáu amser i'r Is-Ganghellor newydd a'r Dirprwy Is-

Ganghellor newydd ymgartrefu yn eu swyddi ac i ganiatáu amser i'r Weledigaeth, y Gwerthoedd a'r Strategaeth newydd gael eu hymwreiddio.

60. Yn ystod cyfarfodydd gydag aelodau o'r staff academaidd, clywodd y tîm adolygu sylwadau cadarnhaol am gefnogaeth sefydliadol sy'n ymwneud â'u datblygiad proffesiynol, gan gynnwys cymorth ar gyfer astudiaeth ddoethurol, cymwysterau addysgu a chydnabyddiaeth fel Cymrawd, a chymorth i staff sydd eisiau ymaelodi â chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio perthnasol.

## Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu

61. Cynhelir dwy gynhadledd datblygiad staff bob blwyddyn sy'n canolbwyntio ar themâu arfer da penodol. Canolbwyntiodd y gynhadledd ddiweddaraf ar Wella Ansawdd, gan gyfeirio at y Rheoliadau Academaidd, y Fframwaith Dysgu Academaidd a'r broses MGP, yn ogystal â datblygiadau mewn dulliau asesu ar sail gwaith go iawn, a deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.

62. Rhoddodd y staff academaidd ragor o esiamplau o'r dulliau a ddefnyddir i ledaenu arferion da. Roedd y rhain yn cynnwys rhwydweithiau ymchwil cydweithredol, sesiynau dysgu byrion sy'n canolbwyntio ar themâu sy'n dod i'r amlwg o'r Fframwaith Dysgu Academaidd a'r broses MGP, a rhaglenni hyfforddi a datblygu gwaith ymchwil. Roedd y staff yn teimlo bod y rhain yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu arferion da. Yn ogystal, mae cyfleoedd anffurfiol i rannu arferion da'n cynnwys sesiynau dysgu amser cinio a drefnir gan y Tîm Datblygu Academaidd, ac arweinwyr y rhaglenni'n rhannu arferion da sydd wedi dod i'r amlwg o'r broses MGP, felly mae hyn yn galluogi ffurfio mwy o gysylltiadau rhwng y meysydd astudio. Mae'r rhain yn cyflwyno cyfle i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith dyddiol a rhannu arferion da. O fewn systemau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd, mae adolygiadau o themâu MGP ar lefel y meysydd astudio'n caniatáu canfod a rhannu arferion da sy'n codi o raglenni unigol.

## Crynodeb o'r trefniadau i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

63. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol wedi sefydlu mecanweithiau priodol ar gyfer ysgogi datblygiad a gwelliant. Er enghraifft, mae amrywiaeth eang o fecanweithiau i'w cael ar gyfer cynnwys y myfyrwyr yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

## 5. Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

64. Bu'r tîm adolygu'n ystyried y trefniadau sydd ar waith yn y Brifysgol ar gyfer rheoli'r safonau academaidd a phrosesau sicrhau ansawdd, a bu'n craffu ar y ddogfennaeth berthnasol ac yn triongli ei ganfyddiadau mewn cyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr.

### Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth

65. Yn bennaf mewn ymateb i'r Ymchwiliad i Bryderon yn 2023 (gwelwch adran 7), cafwyd nifer o ddatblygiadau yn nulliau'r Brifysgol o reoli ansawdd a safonau. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd (Pwyllgor ASA) yn un o bwyllgorau'r Bwrdd Llywodraethwyr i ddisodli'r Panel Ansawdd a Safonau gynt, a phenodi Pennaeth Ansawdd a Phennaeth Partneriaethau. Yn ogystal, adolygwyd effeithiolrwydd y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau gan ymgynghorydd allanol yn 2024. Mae'r datblygiadau a gafwyd ym mhrosesau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd yn cynnwys cyflwyniad y broses Monitro a Gwella Parhaus (MGP) i ddisodli'r broses fonitro flynyddol flaenorol, a newidiadau a wnaed i'r systemau 'cylch oes rhaglen'.

66. Adolygwyd Rheoliadau Academaidd y Brifysgol yn 2023, a chynigiwyd newidiadau o ganlyniad i hyn. Yn dilyn cwblhau'r gwaith hwn, cymeradwywyd y rheoliadau diwygiedig gan y Bwrdd Academaidd ym mis Medi 2023. Yna daethpwyd â'r rheoliadau yn ôl at y Bwrdd Academaidd ym mis Tachwedd 2023 i gytuno ar rai esboniadau ac addasiadau. Adolygir y Rheoliadau Academaidd yn rheolaidd gan y Tîm Ansawdd a Rheoliadau, a chesglir adborth drwy gydol y flwyddyn academaidd. Sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Rheoliadau Academaidd fel grŵp parhaol i adolygu'r rheoliadau'n flynyddol ac i gynnig addasiadau fel y bo'r gofyn ar sail yr adborth a dderbynnir. Ystyrir unrhyw addasiadau arfaethedig i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu gan y Bwrdd Academaidd.

67. O dan y trefniadau Ansawdd Academaidd, mae pob un o sefydliadau partner y Brifysgol yn derbyn adolygiad manwl drwy'r prosiect ar gyfer adolygu partneriaethau academaidd yn fewnol. Gwneir hyn mewn pedwar cam gan ddechrau gyda'r partneriaid hynny lle canfuwyd risgiau, a dylai hyn gael ei gwblhau erbyn haf 2025. Mae pob tîm adolygu'n cynnwys uwch aelod o'r staff academaidd yn ogystal ag aelod o'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau. Mae'r broses wedi galluogi i themâu cyffredin gael eu nodi.

### Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol

68. Diwygiwyd y prosesau ar gyfer dilysu ac ail-ddilysu rhaglenni i sicrhau bod pob rhaglen yn cael ei meincnodi yn erbyn pwyntiau cyfeirio allanol, gan gynnwys y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), Datganiadau o Nodweddion perthnasol, a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol. Mae pob panel dilysu ac ail-ddilysu'n cynnwys aelod o'r tu allan i'r Brifysgol i sicrhau safonau academaidd a'r gallu i'w gymharu â rhaglenni'n genedlaethol. Roedd yr adroddiadau dilysu a welwyd gan y tîm adolygu'n cadarnhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni.

69. Clywodd y tîm adolygu bod y Brifysgol wedi pennu, drwy ei Hadroddiad Trosolwg o Fyrddau Arholi, fod problemau mewn perthynas â byrddau arholi, yn arbennig yn ymwneud ag amseroldeb cyflwyno marciau. I nifer o gyrsiau byr sydd â 10 neu 20 credyd, nad yw unrhyw rai ohonynt wedi eu halinio â rhaglenni gradd, nododd yr adroddiad arolwg blynyddol bod achosion i'w gweld o fyfyrwyr oedd heb dderbyn cadarnhad o'u graddau ac nad oedd trawsgrifiadau wedi eu dyfarnu am nad oedd marciau wedi eu cyflwyno. Ystyriwyd yr adroddiad arolwg blynyddol

gan y Bwrdd Academaidd mewn cyfarfod ym mis Hydref 2024, lle cytunwyd y byddai grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r problemau a ganfuwyd. Ar adeg yr adolygiad, cafodd nifer o gyfarfodydd cychwynnol eu cynnal, ac roedd trefniadau ar gyfer cyflwyno marciau ac amseriadau byrddau arholi'n cael eu hystyried yn ehangach.

70. Cydnabu'r tîm adolygu fod y Brifysgol wedi canfod y problemau ynglŷn â byrddau arholi drwy ddefnyddio ei phrosesau sicrhau ansawdd, a'i bod wrthi'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau perthnasol. Roedd y tîm adolygu o'r farn mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl farciau ar gyfer cyrsiau byr yn cael eu cyflwyno i, ac yna eu hystyried gan, fwrdd arholi o fewn yr amseriad a drefnwyd.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol

71. Mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd sydd gan Brifysgol Wrecsam yn cynnwys Rheoliadau Academaidd a Pholisïau a Gweithdrefnau Academaidd y Brifysgol, yn ogystal â'i phrosesau sicrhau a gwella ansawdd. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y rhain yn ganllawiau manwl a chynhwysfawr am brosesau sicrhau ansawdd, eu bod wedi eu gweithredu'n effeithiol, a'u bod yn hawdd i'r staff a'r myfyrwyr gael gafael arnynt.

72. Mae'r Brifysgol yn disgrifio cyflwyniad y broses MGP fel un sy'n tanategu ei dull o sicrhau ansawdd a'i wella'n barhaus. Y bwriad yw gweithredu proses hunan-ddadansoddi barhaus, i ymateb i faterion dros gwrs y flwyddyn wrth i ddata a thystiolaeth ddod ar gael. Disgrifir hon fel proses 'fyw', a disgwylir i gynlluniau gweithredu'r rhaglenni gael eu llunio, eu hadolygu a'u trafod yng nghyfarfodydd misol timau'r rhaglenni.

73. Yn rhan o'r prosesau hyn, disgwylir i dimau'r rhaglenni ystyried ystod o ffynonellau perthnasol, er enghraifft, adroddiadau gwerthuso modiwlau; adroddiadau arholwyr allanol; adroddiadau gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh); ystadegau myfyrwyr; adborth gan y myfyrwyr; canlyniadau prosesau sicrhau ansawdd; adborth gan gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill, ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg drwy'r trefniadau cydweithredol. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y ffaith bod y broses MGP yn ystyried y cynllun gweithredu 'byw' yn wahaniaethwr allweddol oddi wrth y broses flaenorol, gan alluogi i bryderon dderbyn sylw mewn ffordd fwy amserol. Roedd y staff hefyd yn barnu ei bod yn broses fwy cydweithredol o'i chymharu â'r adroddiad blynyddol blaenorol a luniwyd gan arweinydd y rhaglen, ac mai un o effeithiau'r cydweithrediad gwell hwn oedd mwy o gyfle i rannu arferion da (gwelwch hefyd baragraff 30).

74. Disgwylir i adroddiad ar ddiwedd pob blwyddyn gael ei lunio ar lefel y rhaglen, a rhoddwyd ystod o esiamplau o hyn i'r tîm. Cyflwynir adroddiadau i Fwrdd Monitro Rhaglenni Blynyddol y gyfadran, ac yna paratoir adroddiadau trosolwg y broses MGP ar lefel y cyfadrannau, sy'n cael eu rhoi i Is-bwyllgor Rhaglenni Academaidd a Phwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA) y Brifysgol. Mae'r is-bwyllgor hwn yn nodi unrhyw faterion sy'n achosi pryder mewn perthynas â maes astudio penodol, rhaglen benodol neu grŵp penodol o raglenni. Mae hefyd yn cytuno ar gamau i ledaenu arferion da; er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu a phrofiad y myfyrwyr ac ymdrin â materion sydd o ddiddordeb cyffredin.

75. Mae'r Brifysgol wedi gwneud adolygiad o'i phrosesau 'cylch oes rhaglen', gan gynnwys prosesau dilysu, ail-ddilysu, addasu, atal dros dro neu dynnu allan. O ganlyniad i'r adolygiad, oedd yn cynnwys ymgynghoriad eang â staff a myfyrwyr o'r grŵp ymgynghori 'Cylch Oes Rhaglen', gwnaethpwyd newidiadau i brosesau dilysu ac ail-ddilysu'r Brifysgol, sydd wedi eu disgrifio yn y Weithdrefn 'Cylch Oes Rhaglen' erbyn hyn. Clywodd y tîm adolygu mai un o'r newidiadau yw symud y broses ddilysu ac ail-ddilysu o lefel y rhaglen i lefel y maes astudio. Dywedodd y staff wrth y tîm y byddai'r newid hwn yn galluogi iddynt weithio o safbwynt mwy cyfannol, ynghyd â rhoi amseriadau gweithredu mwy eglur. Newid arall yw trefnu gweithdy wyneb yn wyneb

diwygiedig ar ddatblygu rhaglenni ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, ar gyfer rhaglenni sy'n mynd drwy brosesau dilysu ac ail-ddilysu. Mae'r gweithdai hyn yn ymwneud â holl linynnau gwaith y Tîm Datblygu Academaidd, gan gynnwys y prosiect TrACE (trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod) a'r Strategaeth Cyfrwng Cymraeg. Siaradodd y staff yn frwdfrydig am y fenter 'CREATE' (dull o gydweithio wrth adolygu a gwella asesiadau a rhagoriaeth addysgu), gan fynegi'r farn bod y broses yn gweithio fel 'cyfaill beirniadol' ac yn galluogi i dimau'r rhaglenni weld pethau'n wahanol oherwydd cyfranogaeth staff mewn disgyblaethau eraill, gan olygu bod syniadau ac arferion gorau'n cael eu rhannu.

76. Disgwylir hefyd i dîm rhaglenni'r Brifysgol sy'n cynnig y newid ddangos lefel briodol o ymgysylltiad allanol, ac mae allanoldeb wedi ei ymwreiddio yng ngham cynllunio rhaglen y broses er mwyn sicrhau ymgysylltiad gan randdeiliaid perthnasol. Darparodd y staff esiamplau o ymgynghori â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys defnyddio cynrychiolwyr o'r diwydiant a'r cyrff PSRh i hysbysu'r gwaith o ddatblygu rhaglenni newydd.

## Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi

77. Mae'r Brifysgol, drwy ei Fframwaith Gwella Ansawdd, wedi gweithredu ffyrdd systematig ac integredig newydd o fonitro ei phrosesau'n barhaus er mwyn sicrhau bod profiad dysgu'r myfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi. Mae gan y Brifysgol strwythur ffurfiol o gynrychiolaeth myfyrwyr sy'n cynnwys cyfranogaeth y myfyrwyr mewn cyrff penderfynu, megis y Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Llywodraethwyr, yn ogystal â phwyllgorau Ansawdd a Rhaglenni. Cadarnhaodd y myfyrwyr fod eu hadborth yn derbyn ystyriaeth yn aml iawn, ac y gellir gweithredu newidiadau'n gyflym ac yn ymatebol, er enghraifft, mewn perthynas â gweithrediad y system ar gyfer cofnodi cwynion, a gweithrediad yr wythnos gyfoethogi.

78. Mae'r Brifysgol wedi gweithredu dull seiliedig ar ddata o werthuso a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr, er enghraifft, mewn perthynas â'r adolygiad o bartneriaid cydweithredol sy'n ystyried risgiau. Mae'r dull hwn yn cynnwys monitro parhaus gan ddefnyddio ystod o ffynonellau data, gan gynnwys arolygon mewnol ac allanol sy'n ymwneud â chofrestriad, cadwraeth, cynnydd, cyrhaeddiad a boddhad y myfyrwyr. Mae hyn yn sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a gwella'n cael eu llywio gan ddealltwriaeth gynhwysfawr o berfformiad a phrofiad y myfyrwyr.

## Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd

79. Yn dilyn yr Ymchwiliad i Bryderon, gwnaethpwyd newidiadau arwyddocaol i drefniadau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau. Mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd yn cynnwys prosesau priodol ar gyfer dilysu ac ail-ddilysu rhaglenni, a mecanweithiau ar gyfer sicrhau bod rhaglenni'n cael eu monitro'n barhaus. Mae trefniadau priodol yn eu lle i ddiogelu safonau, sy'n cynnwys y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol ac allanoldeb, er enghraifft drwy ddefnyddio arholwyr allanol ac aelodau allanol o banelau. Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol fecanweithiau effeithiol yn eu lle ar gyfer sicrhau safonau academaidd a'u gwella'n barhaus.

# 6. Darpariaeth gydweithredol

## Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid

80. Mae gan y Brifysgol hanes hir o ddarparu addysg uwch mewn cydweithrediad â phartneriaid, ac mae'r ffocws hwn ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn un o'r blaenoriaethau strategol. Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd gan y Brifysgol 29 o bartneriaid cydweithredol yn y DU, Affrica ac Asia sydd wedi eu rhestru yn ei Chofrestr Darpariaeth Gydweithredol. Nododd y Brifysgol fod ei dull o reoli ei darpariaeth gydweithredol wrthi'n cael ei newid yn sylweddol. Gwnaethpwyd y newid hwn yn rhannol o ganlyniad i'r Ymchwiliad i Bryderon (gwelwch adran 7) a gafwyd gan QAA yn ddiweddar, a oedd yn canolbwyntio'n rhannol o leiaf ar y ffordd yr oedd y Brifysgol wedi cymeradwyo a darparu goruchwyliaeth barhaus o'i phartneriaid cydweithredol, yn ogystal â'r newidiadau diweddar yn uwch dîm rheoli'r Brifysgol. Clywodd y tîm adolygu fod trothwyon y Brifysgol o ran cymryd a chaniatáu risgiau mewn cydweithrediadau â phartneriaid wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r newid hwn mewn arweinyddiaeth. O'r herwydd, mae'r Brifysgol yn bwriadu ceisio llai o bartneriaid cydweithredol a sicrhau partneriaid mwy eu maint a mwy aeddfed wrth symud ymlaen. Bydd y cyfeiriad strategol hwn wedi ei arwain gan ddau swyddog newydd eu penodi: Pro Is-Ganghellor (Ymgysylltiad Allanol a Phartneriaethau) y Brifysgol, a'i Phennaeth Partneriaethau Academaidd.

81. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wrthi'n adolygu pob un o'i phartneriaid cydweithredol yn fanwl, ac mae'n disgwyl rhoi'r gorau i oddeutu 10 i 12 partneriaeth o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Er bod y Brifysgol yn disgwyl rhoi'r gorau i nifer o'i phartneriaethau cyfredol, mae'n bwriadu ehangu mewn meysydd astudio allweddol megis nyrsio, gwyddorau bywyd, ac addysg bellach. Mae'r meysydd hyn yn cyfateb yn agosach â strategaeth twf y Brifysgol a'i chenhadaeth ddinesig yng Ngogledd Cymru.

## Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau

82. Mae Gweithdrefn ar gyfer Partneriaethau Academaidd y Brifysgol yn amlinellu'r broses o gymeradwyo a rheoli darpariaeth gydweithredol. Mae'n cynnwys dau gam allweddol: cymeradwyo partner a chymeradwyo rhaglen. I ddechrau, mae trafodaethau ar lefel y cyfadrannau'n penderfynu a yw maint, strwythur, a chwricwlwm y darpar bartner yn addas. Yn dilyn hynny, bydd Swyddfa Partneriaethau a Swyddfa Ansawdd y Brifysgol yn cwblhau unrhyw gamau diwydrwydd dyladwy angenrheidiol. Os bydd y rheiny'n foddhaol, bydd y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd yn adolygu'r partner ac yn ei gymeradwyo i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor i dderbyn cymeradwyaeth derfynol. Ar hyn o bryd, y Bwrdd Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gymeradwyo partneriaid newydd, ond y bwriad yw bod Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd (Pwyllgor ASA), o 2025-26 ymlaen, yn cymeradwyo partneriaid sydd â risgiau isel a chanolig, o dan bwerau sydd wedi eu dirprwyo iddo gan y Bwrdd Llywodraethwyr, a bydd partneriaid sydd â risgiau uchel yn dal i fod angen derbyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd llawn (gwelwch baragraff 123). Mae'r camau hyn yn golygu bod yr argymhelliad perthnasol a rhoddwyd o ganlyniad i'r Ymchwiliad i Bryderon wedi derbyn sylw. Fodd bynnag, roedd y tîm adolygu o'r farn y dylid cadw llygad craff ar rôl y Bwrdd Llywodraethwyr o ran cymeradwyo a goruchwylio trefniadau ar gyfer partneriaethau academaidd, a bod hwn yn **faes sydd o dan ddatblygiad parhaus**.

83. Cam cyntaf y broses o gymeradwyo rhaglen newydd yw cwblhau ffurflen y Brifysgol i gynnig rhaglenni ar gyfer partneriaethau academaidd. Unwaith y bydd hon wedi ei chwblhau, mae'r pwyllgor perthnasol yn adolygu'r cynnig, ac mae hyn yn esbonio'r cwestiynau ynglŷn â materion ariannol a'r posibilrwydd o ddarparu'r rhaglen. Yna mae'r broses yn symud ymlaen i'r

cam dilysu, gan ddechrau gyda chyfraniad gan y fenter 'CREATE' sydd ar waith drwy'r Brifysgol gyfan i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni newydd, ac yn dilyn hynny mae panel dilysu. O dan y broses flaenorol, roedd Is-bwyllgor Rhaglenni Academaidd, Pwyllgor Partneriaethau Academaidd (Pwyllgor PA), a Bwrdd Academaidd y Brifysgol yn gyfrifol am gymeradwyo canlyniadau'r broses ddilysu'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae awdurdod dirprwyedig gan banelau dilysu bellach o dan y cynllun dirprwyo i gymeradwyo rhaglenni newydd unwaith y bydd yr amodau i gyd wedi eu cyflawni. Mae'r broses o addasu rhaglenni'n amrywio yn dibynnu ar natur yr addasiad, ond, yn gyffredinol, mae'r partner a'r Tiwtor Cyswllt Academaidd yn cydweithio i baratoi'r dogfennau gofynnol i Swyddfa Ansawdd y Brifysgol. Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd sy'n gyfrifol am gymeradwyo rhaglenni'n derfynol.

84. Am nad oedd cynnig am bartner newydd wedi bod trwy'r broses gyfan ar gyfer cymeradwyo partneriaid newydd a rhaglenni newydd, nid oedd modd cwblhau profion o un pen i'r llall yn derfynol. Fodd bynnag, mae'r tîm adolygu'n deall bod dau bartner arfaethedig newydd wedi bod trwy'r proses diwydrwydd dyladwy, a gyflwynwyd i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor, ac ni chymeradwywyd y cynigion gan y tîm hwnnw. Roedd hyn yn awgrymu bod y prosesau sydd ar waith yn gweithio'n dda - yn yr achosion hyn o leiaf. Ymhellach, mewn cyfarfodydd gydag aelodau uwch o'r staff, clywodd y tîm adolygu bod y gwrthod hwn yn dangos bod trothwyon y Brifysgol wedi newid o ran cymryd a chaniatáu risgiau. Ar y cyfan, roedd y tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol wedi cymryd camau i gyflawni datblygiadau arwyddocaol yn ei dull o ymwneud ag ansawdd a safonau, mewn ymateb i'r Ymchwiliad i Bryderon, ac roedd o'r farn mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer cymeradwyo partneriaethau newydd, ac ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau mewn partneriaethau academaidd.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol

85. Mae gan y Brifysgol brosesau ar waith i sicrhau bod ei darpariaeth gydweithredol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys proses fewnol newydd o adolygu partneriaid yn flynyddol, sy'n edrych ar dair prif elfen: materion ariannol, materion ansawdd a materion cyfreithiol. Yn dilyn y newidiadau a gafwyd yn ddiweddar yn yr uwch dîm rheoli, penderfynodd y Brifysgol adolygu ei holl ddarpariaeth gydweithredol gyfredol. Yn y dyfodol, bydd y Brifysgol yn dewis hapsampl o'r darparwyr sydd i gael eu harchwilio. Dywedodd staff cyflogedig partneriaid cydweithredol y Brifysgol eu bod yn gweld y broses hon yn ddefnyddiol i wella a chryfhau'r cydweithrediad â'r Brifysgol.

86. Clywodd y tîm adolygu fod y Brifysgol, o ganlyniad i'r broses archwilio, wedi penderfynu rhoi'r gorau i nifer o'i phartneriaethau, a bod nifer o'r rhaglenni wrthi'n cael eu 'haddysgu allan' yn barod. Er bod y tîm adolygu wedi nodi bod rhai cynlluniau ar waith i ymdrin â therfynu'r rhaglenni hyn, pwysleisiodd y tîm ei bod hi'n bwysig cadw llygad craff ar y trefniadau hyn. Mae'r tîm adolygu'n cydnabod mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r camau sy'n cael eu cymryd i fonitro a goruchwylio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer diogelu safonau academaidd, a sicrhau ansawdd, a phrofiad y myfyrwyr, wrth i raglenni darpariaeth gydweithredol gael eu 'haddysgu allan' neu eu terfynu.

87. Yn bennaf, y Tiwtoriaid Cyswllt Academaidd sy'n goruchwylio'r gwaith o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol. Mae'r aelodau hyn o staff y cyfadrannau'n meddu ar arbenigedd mewn pwnc penodol sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth gydweithredol ac yn aml iawn mae ganddynt brofiad mewn cefnogi darpariaeth oddi ar y safle. Rhoddir hyfforddiant i'r rheiny nad ydynt yn gyfarwydd â'r rôl. Yn ystod yr ymweliad adolygu, dywedodd aelodau o'r staff uwch a'r staff academaidd bod model dyrannu llwyth gwaith y Brifysgol yn neilltuo amser ar gyfer Cysylltiadau Academaidd, ar raddfa sy'n cyd-fynd â'r nifer o ddarparwyr a aseinir iddynt, er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o amser i gefnogi timau darparu yn y sefydliadau partner.

88. Mae'n rhaid i bartneriaid cydweithredol gyflwyno adroddiadau blynyddol, ar lefelau'r darparwr a'r rhaglen. Maen nhw'n gofyn bod sefydliadau partner yn ystyried eu perfformiad cyffredinol ac yn benodol y rhaglenni y maent yn eu darparu. Datblygir adroddiadau rhaglenni blynyddol mewn cydweithrediad â Chysylltau Academaidd penodedig y sefydliadau ac, yn y pen draw, maen nhw'n bwydo i mewn i brosesau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd, sy'n cael eu hystyried yng nghyfarfodydd Byrddau'r Cyfadrannau i ddechrau. Ymysg y canlyniadau mae adroddiad trosolwg gan y darparwyr i gyd, sy'n cael ei ddefnyddio'n fewnol yn unig ar hyn o bryd. Dywedodd cynrychiolwyr rhai o bartneriaid cydweithredol y Brifysgol y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gweld y canfyddiadau cyffredinol hyn, yn enwedig lle gwelir arferion da.

89. Ym mis Hydref 2023, sefydlodd y Brifysgol gynadleddau i staff partneriaid. Mae'r cynadleddau hyn yn gwasanaethu fel un o nifer o fecanweithiau i hyrwyddo ymgysylltiad gan staff cyflogedig y partneriaid cydweithredol. Roedd y pynciau dan sylw'n cynnwys rôl y Cyswllt Academaidd, y defnydd a wneir o'r ap i fyfyrwyr gysylltu â'r Brifysgol, a'r symudiad arfaethedig o fonitro blynyddol i fonitro a gwerthuso parhaus.

## Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

90. Daeth y tîm i'r casgliad y dylai'r newidiadau y mae'r Brifysgol wrthi'n eu gwneud a'u gweithredu hwyluso a chryfhau dull effeithiol o reoli ei darpariaeth gydweithredol. Mae'r dull hwn yn cynnwys prosesau manwl o wneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy a chymeradwyo, sy'n gofyn i'r timau perthnasol asesu'r risg sy'n gysylltiedig â phob partner. Mae goruchwyliaeth sylweddol yn digwydd o'r broses o gymeradwyo partneriaid yn strwythurau llywodraethu'r Brifysgol. Gwneir y gwaith monitro ar lefelau'r rhaglen a'r darparwr, a darperir cymorth o ddydd i ddydd gan Gysylltiadau Academaidd. Yn fwy na hynny, mae'r broses archwilio sydd newydd ei sefydlu'n cyflwyno haen ychwanegol o sicrwydd. Ar y cyfan, roedd y tîm adolygu o'r farn bod y trefniadau hyn yn briodol, yn gymesur ac yn effeithiol o ran cynnal safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.

# 7. Pryderon

91. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, codwyd nifer o bryderon yn 2022 mewn perthynas â Phrifysgol Wrecsam (sef Prifysgol Glyndŵr Wrecsam bryd hynny) ac, o ganlyniad, cychwynnwyd ymchwiliad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (sef Medr, Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru, erbyn hyn) a phasiwyd y mater i QAA i wneud Ymchwiliad Cam 2 o dan y Broses Ymchwilio Pryderon (Cymru). Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar y canlynol: gwytnwch y systemau sicrhau ansawdd; i ba raddau yr oedd y Brifysgol yn ateb anghenion ei myfyrwyr; y ffordd y mae partneriaethau'n cael eu datblygu a'u monitro, a'r ffordd y mae ansawdd yn cael ei oruchwylio, drwy strwythur llywodraethu'r Brifysgol. Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd QAA adroddiad am ei Hymchwiliad i Bryderon[4] a ddaeth i'r casgliad bod problemau difrifol yn bodoli, a gwnaeth 12 argymhelliad, yr oedd pump ohonynt yn codi o faterion a ystyriwyd yn broblemau difrifol oedd yn achosi pryder (argymhellion A, C, F, H ac I). Yn dilyn hynny, mae'r Brifysgol wedi llunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion hyn, ynghyd ag adolygiad o'r ffactorau oedd wedi cyfrannu at gasgliadau tîm ymchwilio QAA. Mae'r cofnodion yn dangos bod Bwrdd Academaidd y Brifysgol wedi clywed ym mis Hydref 2024 bod y camau gweithredu oedd wedi eu nodi yn y cynllun wedi cael eu cwblhau, a rhoddwyd gwybod am hynny hefyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd (Pwyllgor ASA) ym mis Tachwedd 2024.

92. Cytunwyd rhwng y Brifysgol, Medr a QAA y byddai'r tîm adolygu sy'n gwneud yr Adolygiad GA o'r Brifysgol yn 2025 yn ystyried, yn rhan o'r broses Adolygiad GA, a yw'r cynllun gweithredu wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Felly, yn ystod y broses Adolygiad GA, bu'r tîm adolygu'n gwerthuso'r camau a gymerwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i bob argymhelliad unigol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y dystiolaeth berthnasol a ddarparwyd gan y Brifysgol. Yn ogystal, siaradodd y tîm adolygu ag aelodau uwch o'r staff ac aelodau o'r corff llywodraethu yn ystod yr ymweliad adolygu ym mis Chwefror 2025, ac roedd hyn yn cynnwys cyfarfod oedd yn ymwneud yn benodol â'r Ymchwiliad i Bryderon. Mae canfyddiadau'r tîm mewn perthynas â phob argymhelliad i'w gweld isod, ynghyd â'r cyd-destun ar gyfer yr argymhelliad, a manylion y camau gweithredu a gymerwyd gan y Brifysgol.

### Argymhelliad A: Dylai'r Brifysgol sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn ystod y broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni

93. Yn ystod 2018 a 2019, aeth y Brifysgol ati i ddatblygu cyfres o raglenni Meistr mewn Ymchwil. Ond, cododd CCAUC nifer o bryderon mewn perthynas â'r rhaglenni hyn, yn cynnwys strwythur rhai o'r rhaglenni sydd fel petaent yn debycach i radd Meistr drwy Ymchwil. Wrth archwilio a oedd y rhaglenni hyn yn alinio ai peidio â'r gofynion ar gyfer rhaglenni a addysgir, nododd y tîm ymchwilio nad oedd unrhyw gyfeiriad ym manylebau'r rhaglenni a'r modiwlau at y Datganiadau o Nodweddion Graddau Meistr fel pwynt cyfeirio allanol, ac ni chanfu'r tîm ymchwilio unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion y broses graffu fewnol i ddangos bod trafodaeth wedi digwydd am aliniad y rhaglenni hynny â'r gofynion ar gyfer dyfarnu gradd Meistr mewn Ymchwil a addysgir. Canfu'r tîm ymchwilio fod rhai o'r rhaglenni perthnasol yn adlewyrchu nodweddion gradd Meistr drwy Ymchwil tra bo eraill yn adlewyrchu gradd Meistr mewn Ymchwil. Daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod yma "fethiant i roi ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol ar adeg y cynllunio a'r datblygu ac, wedi hynny, wrth gymeradwyo'r rhaglenni".

94. Dywedwyd wrth y tîm fod y templed ar gyfer adroddiadau dilysu ac ail-ddilysu'n cynnwys rhestr o bwyntiau cyfeirio allanol erbyn hyn, mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, ynghyd â rhestr wirio i gadarnhau bod y pwyntiau hyn wedi derbyn ystyried, ac y disgwylir i bob digwyddiad dilysu

[4] www.medr.cymru/wp-content/uploads/2024/10/Adroddiad-i-CCAUC-am-Ymchwiliad-i-Bryderon-Cymru-Prifysgol-Glyndwr-Wrecsam-Ionawr-2023.pdf

gynnwys meincnodi o dan Weithdrefn 'Cylch Oes Rhaglen' 2024-25. Rhoddwyd esiamplau i'r tîm o adroddiadau dilysu gyda rhestrau gwirio cyflawn sy'n dangos bod y ffactorau perthnasol wedi cael eu hystyried yn rhan o'r digwyddiadau dilysu. Mae pob panel dilysu'n cynnwys cadeirydd sydd â phrofiad o gymryd rhan mewn prosesau sicrhau ansawdd, aelod o blith staff y Brifysgol sydd wedi ei hyfforddi'n briodol ac aelod o'r tu allan i'r Brifysgol.

95. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad A wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus**.

### Argymhelliad B: Dylai'r Brifysgol wneud ail-ddilysiadau, gynted ag y bo modd, o'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Clinigol Cymhwysol a'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Cymhwysol yn y Gwyddorau Biofeddygol

96. I fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd mewn perthynas â'r rhaglenni Meistr mewn Ymchwil, argymhellodd tîm yr Ymchwiliad i Bryderon hefyd y dylid ail-ddilysu'r rhaglenni hynny gynted ag y bo modd. Dywedwyd wrth dîm yr Adolygiad GA fod y rhaglenni perthnasol wedi cael eu hail-ddilysu yn 2023. Mae'r adroddiadau'n dangos yn eglur bod y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Graddau Meistr a gyhoeddir gan QAA wedi derbyn ystyriaeth benodol a bod ystyriaeth wedi ei roi hefyd i sicrhau bod nodau a strwythurau'r rhaglenni'n adlewyrchu'r ffaith eu bod yn rhaglenni a addysgir a'u bod yn cyfateb â'r gofynion ar gyfer dyfarnu gradd Meistr mewn Ymchwil a addysgir.

97. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad B wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus**.

### Argymhelliad C: Dylai'r Brifysgol sicrhau bod ei rheoliadau academaidd yn cael eu gweithredu'n gyson er mwyn sicrhau y cedwir y safonau academaidd

98. Nododd tîm yr Ymchwiliad i Bryderon broblem yn ymwneud â'r ffordd y gweithredwyd y Bwrdd Arholi mewn perthynas â'r rhaglenni MSc mewn Cyfrifiadureg gydag Ymarfer Uwch a gynigir gan y Brifysgol. Dywedwyd wrth y tîm ymchwilio bod myfyrwyr wedi gwneud nifer o gwynion yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r asesiadau ym mis Gorffennaf 2021, a bod y rheiny'n gwynion yn ymwneud â'r marciau a roddwyd iddynt a materion eraill. Cyfeiriwyd y cwynion hyn at y Dirprwy Is-Ganghellor, a chynullwyd panel bychan oedd yn cynnwys aelodau uwch o'r staff i ddatrys y materion. Yn dilyn y broses hon, cafodd canlyniadau'r asesiadau eu diweddaru, a chlywodd y tîm ymchwilio bod hyn wedi digwydd oherwydd penderfyniad a wnaed gan uwch aelod o staff y tu allan i'r Bwrdd Arholi, gan dorri Rheoliadau Academaidd y Brifysgol.

99. Ers yr Ymchwiliad i Bryderon, clywodd tîm yr Adolygiad GA fod y Brifysgol wedi adolygu ei rheoliadau academaidd ac y cymeradwywyd y rheoliadau diwygiedig i ddechrau gan y Bwrdd Academaidd ym mis Medi 2023, cyn cael eu haddasu a'u cymeradwyo ymhellach gan y Bwrdd Academaidd ym mis Tachwedd 2023. Adolygir y Rheoliadau Academaidd yn rheolaidd gan y Tîm Ansawdd a Rheoliadau, a chesglir adborth drwy gydol y flwyddyn academaidd. Sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Rheoliadau Academaidd fel grŵp parhaol i adolygu'r Rheoliadau Academaidd yn flynyddol, ac i gynnig diwygiadau fel y bo'r gofyn ar sail yr adborth a dderbynnir. Y Bwrdd Academaidd sy'n gyfrifol am gymeradwyo rheoliadau'n derfynol.

100. Datblygwyd proses Archwiliad Sicrwydd Ansawdd Academaidd i archwilio prosesau ac arferion mewnol. Ar adeg yr Adolygiad GA, mae dau archwiliad ar waith, ac mae un o'r rhain yn adolygiad o reoliadau'r Brifysgol drwy'r prosiect Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau. O ganlyniad i'r archwiliad, diweddarwyd a chyhoeddwyd nifer o bolisïau a gweithdrefnau, mae rhai wrthi'n mynd drwy'r broses ac mae eraill yn aros am adolygiad.

101. Clywodd tîm yr Adolygiad GA fod y Rheoliadau Academaidd wedi cael eu hadolygu yn 2023-24 a bod camau ar waith i symleiddio'r cynnwys a dileu gwybodaeth amherthnasol.

Yn ogystal, sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Rheoliadau Academaidd i gadw llygad ar y rheoliadau, casglu adborth ac adolygu'r rheoliadau'n flynyddol.

102. Mae'r Brifysgol yn nodi bod y staff wedi cael gwybod am y newidiadau allweddol a gyflwynwyd yn y rheoliadau ar gyfer 2023-24 mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys mewn e-bost, mewn taflenni newyddion, yn ystod sesiynau briffio i'r staff i gyd ac yn y gynhadledd staff. Rhoddwyd gwybod am y newidiadau i staff mewn sefydliadau partner hefyd a hynny yn y gynhadledd partneriaid flynyddol. Rhoddwyd gwybod i'r partneriaid academaidd mewn e-bost ac yng nghylchlythyr y bartneriaeth.

103. Pan ofynnodd tîm yr Adolygiad GA iddynt sut y rhoddir sicrwydd iddynt fod y rheoliadau wedi eu gweithredu'n effeithiol, tynnodd aelodau uwch o'r staff sylw at rôl y Bwrdd Academaidd sy'n derbyn adroddiadau perthnasol, yn ogystal â'r defnydd a wneir o amrywiol fecanweithiau adborth. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ac adborth uniongyrchol gan y rheiny sy'n ymwneud â gweithredu rheoliadau, er enghraifft, aelodau o'r staff sy'n cymryd rhan mewn panelau uniondeb academaidd. Hysbyswyd y tîm hefyd fod geiriad y rheoliadau'n 'haws ei ddeall' erbyn hyn, a bod y geiriad yn llai cyfreithiol ei naws hefyd am fod hynny'n cyd-fynd ag amcanion y Brifysgol yn rhan o'r prosiect TrACE (trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod), i weithio tuag at ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o TrACE. Yn ogystal, darperir hyfforddiant am y rheoliadau i aelodau o'r staff sy'n cyflawni rolau perthnasol, gan gynnwys y rheiny sy'n cadeirio byrddau arholi. Roedd y tîm yn fodlon y dylai'r camau cronnus hyn ostwng yn sylweddol y posibilrwydd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud a fyddai'n torri'r rheoliadau academaidd, ac os byddai toriad yn edrych yn debygol o ddigwydd, y byddai'r sefyllfa'n cael ei adnabod a'i gywiro.

104. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad C wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.**

### Argymhelliad D: Dylai'r Brifysgol adolygu rolau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr a Chadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol i sicrhau bod y rolau'n glir ac yn gweithredu'n effeithiol

105. Ar adeg yr Ymchwiliad i Bryderon yn 2022, roedd Panel Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol yn cynnwys Cyfarwyddwr yn ogystal â Chadeirydd, a'r Cyfarwyddwr bryd hynny oedd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr. Nodwyd yng nghylch gwaith y Panel y bydd y Cyfarwyddwr "…yn darparu cyngor, cymodi a monitro, fel y bo'n briodol". Fodd bynnag, clywodd y tîm ymchwilio fod Cyfarwyddwr y Panel Amgylchiadau Esgusodol, pan fo'n bresennol, yn uwch ei lefel na Chadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol a bod gan y Cyfarwyddwr yr awdurdod i gymeradwyo neu wrthod cais am amgylchiadau esgusodol. Am nad oedd rhan hon y rôl wedi ei nodi yng nghylch gwaith y Panel Amgylchiadau Esgusodol, roedd y tîm ymchwilio wedi argymell y dylai'r Brifysgol adolygu rolau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr a Chadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol i sicrhau bod y rolau'n glir ac yn gweithredu'n effeithiol.

106. Mewn ymateb i hyn, adolygwyd y Polisi Amgylchiadau Esgusodol yn rhan o brosiect Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau'r broses Archwiliad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol (Archwiliad SAB). Yn rhan o'r broses, gwnaethpwyd ymgynghoriad. O dan y polisi diwygiedig, nid yw Cyfarwyddwyr yn cymryd rhan mewn panelau amgylchiadau esgusodol bellach. Erbyn hyn, mae'r panelau hyn yn cynnwys dau aelod o'r staff academaidd sydd ag arbenigedd priodol, y mae un ohonynt yn gweithredu fel y Cadeirydd a'r llall fel yr Is-gadeirydd, yn ogystal â swyddog Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr sydd ag arbenigedd priodol.

107. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad D wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.**

### Argymhelliad E: Dylai'r Brifysgol sefydlu trefniadau adrodd a goruchwylio, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer amgylchiadau esgusodol yn unol â'i pholisi penodedig

108. Er gwaethaf y ffaith fod Polisi Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol yn nodi y dylid cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (Pwyllgor ADA) sy'n cynnwys "gwybodaeth ystadegol am y nifer o geisiadau a dderbyniwyd, a faint ohonynt a gadarnhawyd ac a wrthodwyd, ac unrhyw argymhellion a gafwyd i adolygu'r polisi a'r weithdrefn", ni chanfu tîm yr Ymchwiliad i Bryderon unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion y Pwyllgor ADA bod adroddiad blynyddol wedi cael ei ystyried. Yn ogystal, daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod 'diffyg eglurder' ynglŷn â lle y darperir goruchwyliaeth ar lefel y sefydliad, ac na ystyrir unrhyw ddadansoddiad o niferoedd, themâu a chanlyniadau gan unrhyw fwrdd, grŵp neu bwyllgor. O ganlyniad, daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod y Brifysgol wedi methu â sicrhau bod ei phrosesau o oruchwylio'r trefniadau ar gyfer ystyried ceisiadau gan fyfyrwyr am amgylchiadau esgusodol yn cael eu gweithredu'n gyson.

109. Fel y nodwyd uchod, adolygwyd a diwygiwyd y Polisi Amgylchiadau Esgusodol yn rhan o brosiect Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau'r broses Archwiliad SAB. Dyma destun adran 7.1 y polisi diwygiedig: "Bydd adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am nifer yr hawliadau a dderbyniwyd, a gadarnhawyd ac a wrthodwyd ac unrhyw argymhellion mewn perthynas ag adolygu'r polisi a'r weithdrefn neu a allai wella ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei ddarparu o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu." Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor ADA a'r Bwrdd Academaidd yn hydref 2024, a chyn hynny, cyflwynwyd nifer o adroddiadau interim i'r Pwyllgor ADA yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am y nifer o geisiadau a dderbyniwyd, a faint ohonynt a gadarnhawyd ac a wrthodwyd, yn ogystal ag unrhyw argymhellion a gafwyd mewn perthynas â'r broses.

110. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad E wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.**

### Argymhelliad F: Dylai'r Brifysgol gryfhau'r broses o adrodd ar gyfresi data allweddol am lwyddiant myfyrwyr er mwyn hwyluso goruchwyliaeth fwy effeithiol ar lefel y sefydliad

111. Er bod data am geisiadau, cofrestriadau, cadwraeth a chyrhaeddiad y myfyrwyr yn cael ei dracio'n fanwl, canfu'r tîm ymchwilio nad oedd yr 'adroddiadau am gadw' a roddwyd i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn nodi goruchwyliaeth sefydliadol dros gyfresi data allweddol eraill, megis cynnydd y carfannau o un flwyddyn astudio i'r nesaf. Yn fwy cyffredinol, ni allai'r tîm ganfod tystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y byrddau a phwyllgorau perthnasol i ddangos bod unrhyw gyfresi data allweddol, heblaw data am gofrestriad a chadwraeth, wedi eu harchwilio'n gadarn ac yn rheolaidd. Daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad nad oedd pwyllgorau rheoli a phwyllgorau academaidd y Brifysgol yn cadw 'goruchwyliaeth ddigonol' bryd hynny dros y data am lwyddiant myfyrwyr.

112. Yn 2023-24, datblygwyd matrics adrodd i bwyllgorau ar gyfer cyfresi data allweddol sy'n rhan o Lawlyfr y Bwrdd Academaidd erbyn hyn. Mae'r matrics yn nodi'n fanwl pa fath o ddata y dylid ei gynnwys, ymhle mae'n cael ei adrodd, a pha mor aml. Adolygwyd y dulliau adrodd yn hydref 2024. Canfu'r adolygiad fod y dulliau o adrodd data wedi eu halinio â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y matrics, ond bod angen gwneud rhai newidiadau ac arweiniodd hynny at adolygu'r matrics ar gyfer 2024-25, gyda'r nod o wneud adolygiad pellach ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

113. Yn y matrics adrodd i bwyllgorau ar gyfer 2023-24, nodwyd y dylai adroddiadau newydd am gynnydd myfyrwyr fynd at y Pwyllgor ADA, y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor ASA a'r Bwrdd

Llywodraethwyr o hyn ymlaen, ac y dylai adroddiadau am amgylchiadau esgusodol fynd at Fyrddau'r Cyfadrannau a'r Bwrdd Academaidd. Lluniwyd adroddiad am gynnydd myfyrwyr i'r Bwrdd Academaidd ym mis Gorffennaf 2024. Ym mis Tachwedd 2024, nododd y Pwyllgor ASA y posibilrwydd y byddai angen gwneud rhagor o waith. Hysbyswyd tîm yr Adolygiad GA mewn ffordd oedd yn cynnwys dangosiad, bod y Brifysgol wrthi'n dechrau defnyddio dangosfyrddau data, ac y disgwylir y bydd hyn yn "cryfhau'n sylweddol yr oruchwyliaeth gan lywodraethwyr, y prosesau o gynllunio busnes academaidd, a'r gallu i wneud penderfyniadau deallus".

114. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad F wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus**.

## Argymhelliad G: Dylai'r Brifysgol sicrhau bod ei threfniadau monitro a goruchwylio ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd wedi eu gweithredu'n llawn yn unol â pholisi'r Brifysgol

115. Clywodd y tîm ymchwilio y disgwylir llunio adroddiad blynyddol am y cwynion a'r apeliadau academaidd a gafwyd gan y myfyrwyr, a dylai'r adroddiad hwn "gynnwys data ystadegol a chymharol, rhoi sylwadau am effeithiolrwydd y drefn ac argymell arferion da a gwelliannau i brofiad y myfyrwyr". Ond, canfu'r tîm ymchwilio nad oedd yr adroddiadau blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, a bod rhai gwallau ynddynt. Roedd yr argymhellion a gafwyd yn yr adroddiadau'n ymwneud â'r broses adrodd ei hun yn hytrach nag ymwneud â'r broses o bennu cyfleoedd i wella ansawdd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y cyrff hynny a ystyriodd yr adroddiad ar gyfer 2022 i ddangos bod yr adroddiad hwn wedi cael ei graffu neu ei herio'n drwyadl; roedd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ADA yn 2020-21 a 2021-22 yn cynnwys "ychydig iawn o dystiolaeth i ddangos bod ei aelodau wedi dadansoddi themâu, achosion neu ganlyniadau'r cwynion". Ar y sail hon, daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad "nad yw gweithrediad y broses o fonitro a goruchwylio cwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr mor effeithiol â'r disgwyliad sydd yn y polisi perthnasol, ac, o ganlyniad, na all y Brifysgol ddefnyddio cwynion neu apeliadau academaidd gan ei myfyrwyr mewn ffordd ddibynadwy i wella profiad ei myfyrwyr".

116. Mewn ymateb i'r canfyddiadau, adolygwyd gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd, yn rhan o brosiect Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau'r broses Archwiliad SAB. Roedd yr adolygiad yn ymwneud hefyd ag arferion monitro a goruchwylio. Mae adran 12 y Drefn hon yn nodi'r canlynol: "Ymgymerir â monitro'r broses drwy gofnodi achosion unigol a pharatoi Adroddiad Blynyddol dienw i'w ystyried gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol a/neu bwyllgor priodol y Bwrdd Academaidd. Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi data achosion ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliant, gan gynnwys nodi cyfleoedd hyfforddi pellach." Mae'r cynllun gweithredu'n nodi bod "yr adroddiadau interim a'r adroddiadau blynyddol i'r Bwrdd Academaidd (gan gynnwys yr adroddiad blynyddol am weithdrefnau ar gyfer myfyrwyr) yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am nifer yr hawliadau a dderbyniwyd, a gadarnhawyd ac a wrthodwyd ac unrhyw argymhellion mewn perthynas ag adolygu'r prosesau. Bob blwyddyn, cydgesglir ac adolygir adborth am unrhyw reoliadau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol sydd dan sylw. Lle gwneir newidiadau, cyflwynir y rheoliadau, polisïau a/neu weithdrefnau perthnasol i'r pwyllgor perthnasol i gael eu hystyried a'u cymeradwyo." Darparwyd adroddiad blynyddol 2023-24 am weithdrefnau ar gyfer myfyrwyr, gan gynnwys adroddiadau interim, i dîm yr Adolygiad GA, yn ogystal â chofnodion sy'n dangos bod yr adroddiad wedi ei drafod yn briodol ar lefel y cyfadrannau, ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ADA a'r Bwrdd Academaidd.

117. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad G wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.**

### Argymhelliad H: Dylai'r Brifysgol, er mwyn sicrhau y gweithredir y gweithdrefnau penodedig yn llawn ac yn gyson ar gyfer partneriaethau sydd â risgiau uchel, ddiffinio a dogfennu'r hyn a ystyrir yn bartneriaeth â risgiau uchel

118. Dywedwyd wrth y tîm ymchwilio, nad yw'r Brifysgol, wrth iddi ystyried partneriaethau newydd, wedi diffinio neu ddogfennu'r hyn a ystyrir yn risgiau uchel. Yn dilyn hynny, mae'r Brifysgol wedi mireinio ei diffiniadau o risgiau sy'n gysylltiedig â phartneriaethau academaidd, ac wedi ymgorffori'r diffiniadau hyn yn ei gweithdrefn diwydrwydd dyladwy. Yn ôl y diffiniad, "mae partneriaethau academaidd risg uchel yn gydweithrediadau sydd â lefel sylweddol o ansicrwydd a'r potensial ar gyfer canlyniadau negyddol sylweddol". Mae nodweddion yn cynnwys y canlynol: partneriaid sydd â "nodau neu ddisgwyliadau gwahanol iawn i'r Brifysgol"; partneriaid sydd heb brofiad o gwbl o gydweithredu ag eraill gan ddefnyddio model cydweithredol tebyg; neu lle mae "risg ariannol sylweddol neu risg sylweddol i enw da". Adolygwyd y diffiniadau gan randdeiliaid allweddol a'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Weithdrefn ar gyfer Partneriaethau Academaidd newydd yn nodi'r diffiniadau wedi eu diweddaru a'r broses diwydrwydd dyladwy wedi ei diwygio. Ers gweithredu'r broses, mae Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor wedi gwrthod dwy bartneriaeth arfaethedig gan ddilyn proses diwydrwydd dyladwy sy'n ystyried risgiau.

119. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad H wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.**

### Argymhelliad I: Dylai'r Brifysgol, wrth ystyried a chymeradwyo partneriaethau, sicrhau y rhoddir ystyriaeth ehangach yn rhan o'r broses gymeradwyo i allu'r partner i ddarparu rhaglenni o'r safon ofynnol

120. Wrth adolygu'r ddogfennaeth yn ymwneud â phartneriaeth newydd, darllenodd tîm yr Ymchwiliad i Bryderon yr adroddiad dilysu a chanfu fod trafodaethau yn y digwyddiad dilysu, sy'n gyson â'r broses ddilysu, wedi eu cyfyngu i raddau mawr i ystyried y rhaglenni dan sylw yn unig, yn hytrach nag unrhyw faterion ehangach yn ymwneud â gallu'r partner i ddarparu rhaglenni a chynnal eu hansawdd. Hefyd, er bod y ddogfennaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd a safonau, cadarnhaodd y tîm ymchwilio "nad oedd mewnbwn rheolaidd i'r broses gan y cyrff hynny yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd a safonau'n gyffredinol ar draws y sefydliad cyfan".

121. Dywedwyd wrth dîm yr Adolygiad GA fod amrediad ehangach o staff yn adolygu partneriaid arfaethedig erbyn hyn, gan gynnwys y Pennaeth Ansawdd a'r Rheolwr Ansawdd Partneriaethau, a bod y gwaith o adolygu'r Weithdrefn ar gyfer Partneriaethau Academaidd wedi arwain at "ystyriaeth ehangach" o bartneriaid arfaethedig (gwelwch baragraff 84). Ar gyfer 2024-25, y Bwrdd Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gymeradwyo penderfyniadau i gomisiynu partneriaid academaidd newydd cyn iddynt symud ymlaen at y cam dilysu. Dywedodd aelodau o'r staff uwch a'r llywodraethwyr wrth y tîm fod y trefniant penodol hwn yn parhau i gael ei adolygu, ond y bwriedir ar hyn o bryd i'r Pwyllgor ASA fod yn gyfrifol am gymeradwyo partneriaid sydd â risgiau isel a chanolig ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr, o ganol 2025 ymlaen, a bod yn rhaid i bartneriaid sydd â risgiau uchel gael cymeradwyaeth yn uniongyrchol gan y Bwrdd Llywodraethwyr.

122. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad I wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.**

### Argymhelliad J: Dylai'r Brifysgol sicrhau y cofnodir pob risg sydd wedi derbyn ystyriaeth yn rhan o'r broses gymeradwyo partneriaid, ochr yn ochr â'r camau gweithredu arfaethedig i leihau'r risg hwnnw

123. Mewn perthynas ag un o'r partneriaethau, nododd y tîm ymchwilio nad oedd tystiolaeth yn nogfennaeth y cynnig bod ystyriaeth wedi ei roi i risg yn ymwneud â gofyniad rheoleiddiol a osodwyd gan y Swyddfa Myfyrwyr ar y partner arfaethedig. Yn hytrach, roedd aelodau

uwch o'r staff wedi trafod y materion hyn gyda'r partner ac nid oeddent wedi eu darbwyllo bod unrhyw risgiau sylweddol yn bodoli. Fel y nodwyd uchod mewn perthynas ag argymhelliad H, mae'r Brifysgol wedi diwygio ei phrosesau diwydrwydd dyladwy erbyn hyn. Mae'r Weithdrefn ar gyfer Partneriaethau Academaidd yn cynnwys disgrifiadau o amrywiol gategorïau o risgiau, ynghyd â manylion camau lliniaru posibl. Fel y nodwyd uchod (paragraff 84), dywedwyd wrth y tîm adolygu fod dau bartner wedi eu gwrthod ar sail risg ym mis Awst 2024, yn ystod y cam o'r broses gomisiynu y mae Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn ei wneud.

124. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad J wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus**.

### Argymhelliad K: Dylai'r Brifysgol, mewn perthynas â rheoli a goruchwylio partneriaethau, adolygu'r rolau a'r gweithdrefnau, gan gynnwys maint yr awdurdod y mae pwyllgorau wedi ei ddirprwyo i'w cadeiryddion, er mwyn sicrhau bod prosesau'n cael eu craffu'n drwyadl, eu herio'n fewnol a'u goruchwylio drwy'r strwythur llywodraethu academaidd

125. Ar adeg yr Ymchwiliad i Bryderon, cadeirydd Pwyllgor Partneriaethau Academaidd y Brifysgol oedd y Pro Is-Ganghellor (Partneriaethau). Roedd ei gylch gwaith yn galluogi i'r Pwyllgor "awdurdodi'r Cadeirydd i gymryd y camau gweithredu hynny a allai fod yn angenrheidiol i weithredu busnes brys yn gyflymach yn y cyfnod rhwng y cyfarfodydd, ar yr amod bod y Cadeirydd yn fodlon y byddai'r pwyllgor llawn yn cymeradwyo'r penderfyniad ac y darperir adroddiad am weithred o'r fath i'r pwyllgor". Canfu'r ymchwiliad 'ddefnydd eang' o gamau gweithredu'r Cadeirydd, gan gynnwys mewn perthynas â phartneriaeth i gynnig rhaglenni sydd â thariffau credyd ansafonol yr oedd y panel dilysu wedi gwneud nifer o argymhellion amdanynt. Daeth tîm yr Ymchwiliad i Bryderon i'r casgliad bod defnyddio cam gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo'r bartneriaeth hon yn "arwydd o ddiffyg manwl gywirdeb yn y broses gymeradwyo". Wrth ystyried y lefelau o annibyniaeth rhwng rolau a phrosesau yn ymwneud â rheoli partneriaethau, nododd y tîm ymchwilio fod y Pro Is-Ganghellor (Partneriaethau) yn ystyried cynigion cychwynnol am bartneriaethau ochr yn ochr â'u dogfennaeth gysylltiedig, yn cyflwyno'r cynigion hynny i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor, yn cadeirio'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd (Pwyllgor PA), a thrwy ei awdurdod dirprwyedig, mae'n gallu cymryd nifer sylweddol o gamau gweithredu'r Cadeirydd mewn perthynas â materion partneriaeth. Daeth y tîm i'r casgliad bod "y lluosogrwydd rolau'n awgrymu nad oedd annibyniaeth ddigonol yn y strwythurau a'r prosesau ar gyfer partneriaethau academaidd".

126. Mewn ymateb i hyn, mae'r Brifysgol wedi adolygu cylch gwaith y Pwyllgor PA, ac mae'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol neu'r Deon Academaidd (Datblygiad Academaidd) yn cadeirio'r pwyllgor erbyn hyn. Mewn perthynas â'r defnydd a wneir o gamau gweithredu'r Cadeirydd, dywedwyd wrth dîm yr Adolygiad GA fod Llawlyfr y Bwrdd Academaidd wedi cael ei adolygu, a bod y Bwrdd Academaidd wedi cytuno ar newidiadau er mwyn "egluro sut, ac o dan ba amgylchiadau, y gellir defnyddio camau gweithredu'r Cadeirydd, yn ogystal â gwneud y dull o adrodd ar gamau gweithredu o'r fath yn fwy eglur". Yn ogystal, safbwynt y Brifysgol yw y bydd camau gweithredu'r Cadeirydd yn cael eu gweithredu "o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, heblaw bod Llawlyfr y Bwrdd Academaidd yn nodi fel arall".

127. Yn y cyswllt hwn, datblygwyd proses dracio i ddogfennu pryd y cymerir camau gweithredu'r Cadeirydd, ac mae ysgrifenyddion pwyllgorau'n cadw'r cofnodion hyn. Hefyd, mae pob agenda'n cynnwys camau gweithredu'r Cadeirydd fel eitem sefydlog i sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu'r Cadeirydd a gymerir, neu unrhyw gamau a gymerir ar sail gylchynol yn y cyfnod rhwng y cyfarfodydd, yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i'r pwyllgor perthnasol. Rhoddir adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Academaidd sy'n nodi manylion unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan y Cadeirydd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, ac mae'r adroddiad hwn yn cael ei gynnwys fel tystiolaeth yn y Datganiadau Sicrwydd Ansawdd blynyddol a gyflwynir i Medr.

128. Mewn perthynas â rolau, mae'r Pro Is-Ganghellor (Partneriaethau) wedi cael ei ddisodli yn rôl Cadeirydd y Pwyllgor PA gan y Deon Cyswllt (Datblygiad Academaidd) a sefydlwyd swydd y Pennaeth Partneriaethau yn ogystal â'r Pennaeth Ansawdd. Mewn perthynas â gweithdrefnau, sefydlwyd y Weithdrefn ar gyfer Partneriaethau Academaidd, yn ogystal â thempledi diwygiedig ar gyfer prosesau perthnasol. Cafodd y rhai eu hystyried gan nifer o bwyllgorau, gan gynnwys y Bwrdd Llywodraethwyr

129. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad K wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.**

### Argymhelliad L: Dylai'r Bwrdd Llywodraethwyr barhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau'n effeithiol, gan gynnwys mewn perthynas â phartneriaethau academaidd

130. Ystyriodd tîm yr Ymchwiliad i Bryderon weithrediadau'r Bwrdd Llywodraethwyr. Ar adeg yr Ymchwiliad i Bryderon, roedd gan y Bwrdd Banel Craffu ar Ansawdd a Safonau (Panel CAS) oedd yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau sicrhau ansawdd y Brifysgol. Er bod cofnodion cyfarfod y Panel CAS ym mis Tachwedd 2021 yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod trefniadau sicrhau ansawdd y Brifysgol wedi eu hystyried a'u gwerthuso'n drwyadl, daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod cofnodion y cyfarfod ym mis Tachwedd 2022 yn dangos trafodaethau a ddigwyddodd "ar lefel uchel yn unig, a'u bod yn disgrifio'r broses asesu yn bennaf heb werthuso'r heriau na chwestiynu'r adroddiadau a gyflwynwyd iddynt, ac heb unrhyw argymhellion neu ganlyniadau eraill". Felly, daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad "nad oedd y cofnod o ystyriaeth y Panel CAS o dystiolaeth i gefnogi'r datganiadau sicrwydd ansawdd i CCAUC yn 2022 yn ystyried yr adroddiadau mewnol yn ddigon trwyadl ac effeithiol". Daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad mai "tystiolaeth gymysg sydd yma o effeithiolrwydd gwaith craffu'r Panel CAS ar drefniadau sicrhau ansawdd y Brifysgol".

131. Yn dilyn yr Ymchwiliad i Bryderon, sefydlwyd y Pwyllgor ASA (sef y Panel CAS gynt) yn un o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd Llywodraethwyr. Mae gan y pwyllgor newydd hwn gylch gwaith diwygiedig a mwy o aelodau. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ASA yn dangos bod materion perthnasol yn ymwneud ag ansawdd wedi cael eu hystyried yn fanwl, a chyfarfu'r tîm ag aelodau'r pwyllgor. Dylid nodi nad oes unrhyw bartneriaethau wedi mynd i'r pwyllgor i dderbyn ystyriaeth am fod yr unig bartneriaethau arfaethedig wedi cael eu gwrthod yn ystod y cam o weithio gyda Thîm Gweithredol yr Is-Ganghellor (gwelwch baragraff 123 uchod), felly nid oedd y tîm mewn sefyllfa i brofi pa mor effeithiol yw'r dull newydd yn y cyswllt penodol hwn. Ond, mewn perthynas â materion eraill, mae'r cofnodion yn dangos bod y pwyllgor yn cyflawni ei gylch gwaith, felly nid oedd gan y tîm unrhyw reswm i amau y byddai hyn yn wir hefyd gyda phartneriaethau.

132. Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei nodi uchod, **mae'r tîm yn fodlon bod Argymhelliad L wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus.**

## Y casgliadau cyffredinol

133. Bu tîm yr Adolygiad GA yn ystyried y dystiolaeth yn fanwl a ddarparwyd gan y Brifysgol mewn perthynas â'r Ymchwiliad i Bryderon, gan gynnwys y dystiolaeth ehangach ar gyfer yr Adolygiad GA, a chynhaliodd gyfarfodydd gydag aelodau uwch o'r staff ac aelodau o'r corff llywodraethu yn ystod ymweliad yr Adolygiad GA. Roedd hi'n amlwg i'r tîm bod llawer iawn o waith wedi ei wneud, a bod y Brifysgol wedi mabwysiadu dull trwyadl a phwrpasol o fynd i'r afael â'r amrywiol bryderon. Felly, mae'r tîm yn fodlon bod pob un o'r argymhellion a ddeilliodd o'r Ymchwiliad i Bryderon wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus, ac nad oes angen cymryd unrhyw gamau dilyniant pellach.

**QAA2917 - R14668 - Mai 25**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk